80c

papurFAMA

RHIF 420 Mai/Mehefin 2021 papurfama@hotmail.co.uk

Pob lwc i Mr Urdd, Sir Y FFlint! Diolch Darren!

Enillydd Gwobr Jennie Eirian

-llongyfarchiadau Catherine Richards!

papurFAMA

GOLYGYDDION
Harri Bryn Jones - Maes Gwern, 1 Ffordd Hengoed, Yr Wyddgrug CH7 1QD 756606

Marc a Buddug Jones - 4 Y Gilfach, Glynteg, CJH7 1XJ *marcjoneso6@aol.com*

Gareth Victor a Bethan Williams - 16 Maes Bodlonfa, Yr Wyddgrug. CH7 1DR ffon757874
gareth.bethan@btinternet.com

CADEIRYDD
Laura Edwards -'Eyton Hurst', Lôn Bryn Coch Yr Wyddgrug CH7 1PP Ffôn: 01352 754011
ysgrifenlaura@gmail.com

IS-GADEIRYDD
Gareth Victor Williams
gareth.bethan@btinternet.com

YSGRIFENNYDD
Catrin Wilde - *catrin.wilde@hotmail.co.uk*

IS-YSGRIFENNYDD
Carys Gwyn
9 Glyn Teg, Yr Wyddgrug.
Carysgwyn@btinternet.com

TRYSORYDD
Owen Gwyn Ifans - *ogpapurfama@gmail.com*

DOSBARTHWR
Nesta Gibson - *i608@btinternet.com*

Sian Sparrow
01352 754352
siane.sparrow@gmail.com

Hoffwch ein tudalen
@papurfama

POSTMON Y PAPUR
Gwenllian Gwynedd
gwenllian.mair@hotmail.co.uk

Clwb y Bobol Bach
Gwenllian Gwynedd
gwenllian.mair@hotmail.co.uk

CYMRAEG

HYSBYSEBION
Trefor Jones - 9, Llys y Fron, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, CH7 1QZ 757375
jones.llysyfron@outlook.com

CYSODI
Ioan Huws -
+31(0) 622807415
ioanhuws@me.com

Arlennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Argraffwyd gan **PRINTCENTRE CYMRU***
Stâd Ddiwydiannol Bromfield, Yr Wyddgrug
700246

GOLYGYDD Y MIS	Marc a Buddug Jones
Y RHIFYN NESAF	3ydd o Fedi
GOLYGU	Gareth Victor Williams
CYFRANIADAU I LAW	23ain o Awst
A THRWY EBOST ERBYN	25ain o Awst

Cyfraniadau sydd eisioes wedi eu teipio mewn atodiad ffeil word neu lluniau trwy ebost at

papurfama@hotmail.co.uk

Erfyniwn ar ein cyfrannwyr i'n cefnogi trwy gadw at y dyddiad uchod. Ni ellir sicrhau cynnwys deunydd sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad a nodir. Gwerthfawrogwn gyfraniad o £5 am hysbysebion personol neu am ddiolchiadau.Trwy law y trysorydd os gwelwch yn dda.

Tlws Coffa Jennie Eirian Catherine Richards

Yn fam i dri Gareth, Rowena a'r diweddar Geraint ac yn nain i 4, mae Catherine Richards wedi bod yn chwarae rhan dawel a diwyd yn ardal Papur Fama ers blynyddoedd lawer. Byth yn un i dynnu sylw at ei hun ond yn wirfoddolwr penigamp a gweithiwr cydwybodol iawn.

Bu'n gweithio i Mudiad Meithrin am sawl blwyddyn yn yr ardal ac yn cefnogi'r cylchoedd lleol i gynnig y gwasanaeth gorau ar bob achlysur yn enwedig i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ogystal bu'n aelod o fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Glanrafon am nifer o flynyddoedd.

Mae Catherine wedi dal swyddi Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd sawl gwaith dros y blynyddoedd ar gyfer Merched y Wawr, cangen yr Wyddgrug. Bob tro'n drefnus ac yn hoff iawn o greu pob math o dablau a rhestrau ar gyfer trefnu gweithgareddau.

Mae wedi bod yn gysylltiedig ag Ysgol Sul Capel Bethel yr Wyddgrug ers blynyddoedd, ac wedi gweithredu fel arolygwr dros gyfnod maith yn trefnu gwasanaethau, tripiau, partïon a gweithgareddau amrywiol. Mae wedi cynrychioli'r capel ar amryw o bwyllgorau.

Heb anghofio ei gwaith di flino fel un o gonglfeini Eisteddfod Treuddyn – ond unwaith eto'n gweithio'n dawel iawn yn llythrennol y tu ôl I'r llenni.

Diolch yn fawr am eich holl waith Catherine , mae pob un ohonom yn gwerthfawrogi eich gwaith di flino yn yr ardal, rydych yn llawn haeddu'r wobr.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Delyn 1991

Bydd hi'n 30 mlynedd i fis Awst eleni ers i ni groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yma i gaeau Lôn Y Waun ar gyrion safle brwydr Garmon. Mae nifer o bobl wedi gofyn am glywed hanesion a gweld hen luniau yn dilyn yr wythnos a fu. Yr ydym yn cofio am y diweddaf Dr. Aled Lloyd Davies a oedd wrth y llyw fel Cadeirydd yr Ŵyl gyda Hywel Wyn Edwards yn ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith. Os oes gennych luniau, erthyglau neu hanesion i'w rhannu, hoffem dderbyn y rhain erbyn cyhoeddi

ein rhifyn nesaf ym mis Medi os gwelwch yn dda. Peidiwch â phoeni os bydd angen i chwi sganio'ch cynigion - rydym yn ymwybodol nad oedd offer digidol yn bodoli'r adeg honno!
Gweler yn y llun Gareth Williams (Will Bryan) & Gron Ellis (Thomas Bartley) yn chwarae'r prif rannau yn y sioe agoriadol 'Gwinllan A Roddwyd' gan Mrs. Beryl Davies (Awdur y Sioe) a Mrs. Eirian Jones (Cyfarwyddwr a Chynhyrchydd y Sioe).

Hefyd prifardd cadeiriol yr Eisteddfod yn derbyn cadair yr Ŵyl am ei gerdd "Merch ein Hamserau".

CARPEDI GROSVENOR

CARPEDI-DODREFN-RYGIAU

12 Stryd Wrecsam
Yr Wyddgrug
CH7 1ES

01352 700002

Gwasanaeth di-guro trwy'r Gymraeg
www.grosvenorcarpetsmold.co.uk

Lle gwych i dyfu coed

Mae rhai o coed prinnaf a mwyaf gwerthfawr yn Ewrop ymhlith coedwig fach sydd wedi'i storio ac yn barod i'w plannu ledled Sir y Fflint. Mae'n rhan o raglen plannu coed frodorol fawr sy'n cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru o'u canolfan ym Maeshafn, ger yr Wyddgrug. Mae un ar bymtheg mil o lasbrennau bach yn cael eu cartrefu mewn tywyllwch mewn uned storio dur 20 troedfedd a gyflenwir gan Ganolfan Gwerthu Cynhwysyddion Dinbych ac a ddanfonir i ganolfan Gogledd-ddwyrain Cymru yr

Ymddiriedolaeth yng Ngwarchodfa Natur Aberduna. Mae'r coed bach yn eistedd mewn tywyllwch mewn bagiau plastig mewn uned storio cyn cael eu trawsblannu maes o law. Mae'r cyn gynhwysydd cludo yn le delfrydol ar eu cyfer yn ôl Jonathan Hulson, Rheolwr Prosiect Woodlands for Water. Mae'r mathau o rywogaethau brodorol yn cynnwys derw digoes, criafol, cyll, masarn cae, helyg, bedw arian a pinwydd yr Alban ond mae yna rai coed llai cyffredin a phrin hefyd.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bedair meithrinfa tyfu coed ifanc o amgylch hen Chwarel Aberduna.

BWCLE

Croeso cynnes i bâr ifanc sydd wedi ymgartrefu yn Park Avenue, Mynydd Isa. Mae Anthea yn enedigol o Ddinorwig ac yn rhugl yn ei Chymraeg a daw Adam o Groesoswallt. Nyrs yn Ysbyty Maelor yw Anthea ac mae Adam yn gweithio i gwmni Sandee yn Llay.
Erbyn hyn mae Anthea yn un o ddarllenwyr Paur fama. Mae ganddi gysylltiadau teuluol ym Mwcle. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd a dymuniadau gorau iddynt ym mro Papur Fama.

TREUDDYN

Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth Mrs Eunice Griffiths, gwraig annwyl Ron a mam hynod ofalus David a Kenneth. Bu farw'n dawel yn Ysbyty'r Wyddgrug, ar ôl treulio cyfnod hir yn Ysbyty Maelor. Yn enedigol o Dreuddyn, bu'n aelod ffyddlon a gweithgar o gapel Ebeneser ar hyd ei hoes. Fe gyfranodd hefyd yn helaeth at lu o gymdeithasau a phwyllgorau lleol ac mi fydd colled fawr ar ei hôl. Rydym yn cofio'n dyner iawn amdani ac yn cydymdeimlo'n ddwys a Ron a'r holl deulu.

Mi fydd aelodau a chyfeillion Capel Ebeneser yn edrych ymlaen at ail agor y drysau ar ôl cyfnod hir y clo, nos Sul Mehefin y 6ed. Y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans fydd yn croesawu ffrindiau hen a newydd am chwech yr hwyr.

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Eiddwen Jones ar ddathlu ei phen blwydd yn 70 oed. Braf iawn, iawn yw ei gweld yn gwella ac o gwmpas y pentref.

Anfonwn ein cofion i Mr Idris Jones sydd wedi cael triniaeth yn ysbyty Maelor. Ein dymuniadau gorau iddo.

CAPEL BETHESDA

Ble'r aeth yr haul? Wedi tywydd bendigedig misoedd Ebrill a Mai y llynedd mae'n chwith i ni eleni heb wres yr haul ond gallwn ddal i fwynhau yn yr awyr agored a chael crwydro ymhellach. Yn ffodus daeth cyfleon i weld aelodau o'n teuluoedd am y tro cyntaf ers misoedd a chwrdd â ffrindiau yn yr awyr agored. Wrth i gyfyngiadau lacio mae cyfle i gael gwasanaeth yn Bethesda, yn yr ysgoldy a chyfle felly i gwrdd wyneb yn wyneb. Dyna'r cysylltiad y mae llawer ohonom wedi deheu amdano.
Ar Sul y Pasg, Ebrill 4ydd arweiniodd Nan Powell-Davies y Gwasanaeth Cymun ar Zoom . Bu holl wasanaethau eraill mis Ebrill ar Zoom, yn cynnwys cyfle i ymuno yn Ngŵyl Llanw a oedd yn cael ei ddarlledu o Gaersalem, Caernarfon. Parhaodd y darllediadau a'r fideos ar gyfer y plant a'u teuluoedd gyda Lowri Mitton yn gyfrifol am drefnu rheiny. Diolch am y cyfrwng yma sydd wedi bod yn gymaint o fendith i ni ar hyd y misoedd gan ein helpu i gynnal ein gilydd o wythnos i wythnos.
Am y tro cyntaf ers Mis Rhagfyr darlledwyd gwasanaeth Cymorth Cristnogol o ysgoldy Bethesda ar fore Sul, Mai 9fed gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan yn bresenol. Ers hynny mae rhai aelodau wedi cymryd y cyfle i fod yn yr ysgoldy i'r gwasanaeth gyda chyfle i bobl nodi eu dymuniad i fod yn bresenol. Mae pob gwasanaeth yn dal ar Zoom ac yn cael ei recordio. Diolch eto i'n gweinidogion a swyddogion Bethesda am y cyfleon hyn.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2021
Wythnos llawn bwrlwm yw'r wythnos hon fel arfer gyda chasglwyr yn mynd o dŷ i dŷ ,sawl bore coffi a chyfleon eraill i godi arian a chodi ymwybyddiaeth o waith Cymorth Cristnogol ar draws y byd. Eleni a'r elusen yn dathlu 75 mlynedd o'i bodolaeth, Newid Hinsawdd a'i effaith yn Kenya oedd y ffocws, gyda sychder mawr a llifogydd yn dilyn mae pobl yn ei chael yn anodd . Clywsom am Rose oedd yn cerdded 6 milltir i godi dŵr a Florence oedd yn ysbrydoliaeth i'w chymuned.

Yn ystod yr wythnos fe gyflawnodd Nan ac Anna Jane Evans y gamp o gerdded 300,000 o gamau yr un. Golygodd hyn dros 125 milltir o gerdded yn ystod yr Wythnos Cymorth Cristnogol. Roedd arian nawdd Nan yn cael ei gyfrif at apel yr Wyddgrug at Cymorth Cristnogol, a daeth dros £3000 i law. Hoffai ddiolch i bawb am eu haelioni anhygoel wrth gyd sefyll a chyd gerdded efo cymunedau tlotaf y byd fel hyn. Bu casgliad drwy'r eglwys hefyd gyda dros £1000 yn dod i law felly ac ambell un arall yn dosbarthu amlenni ymhlith cymdogion a chyfeillion. Ymunodd eraill i gyd gerdded ac i gyflawni eu camau eu hunain yn ystod mis Mai. Fe gafwyd wythnos llawn bwrlwm eto eleni felly a chyfle i gefnogi Cymorth Cristnogol 2021.
APÊL COVID GOGLEDD DDWYRAIN INDIA
Yn ogystal a chefnogi cymunedau yn yr India trwy apêl Coronafeirws DEC gallwn gefnogi Eglwys Bresbyteraidd Cymru sydd wedi lansio apêl i gefnogi Ysbytai cenhadol Eglwys Brebyteraidd India ym Meghalaya a'r Gogledd Ddwyrain. Gwnaed apel am £30,000 i brynu offer crynhoi ocsigen ac ati yno. Mae'r targed wedi ei gyrraedd ond yr angen yn mynd i barhau am flynyddoedd yn sgil y pandemig. Gallwn gefnogi trwy glicio ar linc yn y cyhoeddiadau ac ar wefan yr enwad.
CYDYMDEIMLO
Bu farw Enid Walters, Llangefni ar ddiwedd Mawrth a gyrrwn ein cydymdeimlad at John, buont yn byw yn Sychdyn ac yn aelodau ym Methesda cyn symud i Fôn.
Un arall a symudodd i Fôn flynyddoedd yn ôl ac ymaelodi yn y Capel Mawr ym Mhorthaethwy, oedd Valmai Foulkes. Clywsom i Valmai ein gadael yn ddiweddar hefyd ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu.
Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Barch. Bryn Jones mor fuan ar ôl iddynt golli Vera. Bu Bryn yn gyfaill inni a chydweithiwr ffyddlon gan arwain oedfaon undebol a bod yn barod iawn ei gymwynas bob amser.
DATHLU PENBLWYDD
Gyrrwn ein cofion at Gwladys Williams oedd yn dathlu

penblwydd arbennig yn mis Ebrill. Bu eraill yn dathlu cerrig milltir yn ystod misoedd Ebrill a Mai a daliwch ati i wneud mae pob un yn bwysig.
COFION
Anfonwn ein cofion at Elwyn Roberts sydd adref o'r Ysbyty ar ol triniaeth diweddar a'n gweddi am iachád lwyr.
Cofiwn hefyd am Phyllis Jones sydd yn parhau yn yr Ysbyty yn lleol ar hyn o bryd.
Bu ambell aelod arall yn cael triniaeth ysbyty yn ystod y mis, eraill yn cael profion ac yn dechrau ar driniaethau .Mae ein cofion yn gynnes atynt gan ddymuno adferiad buan i bob un.

ORDEINIO BLAENORIAID
Mewn cyfarfod cyhoeddus arbennig o Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain ar Nos Fercher Mai 19eg cafodd Robin a Gwenith Jones eu hordeinio yn flaenoriaid. Roedd criw bach yn bresenol yn y festr o'r rhai oedd yn cymryd rhan tra riedd pawb arall yn ymuno ar zoom.
Holwyd y ddau gan Huw P-D a buont yn rhannu am eu profiad o ddod i adnabod yr Arglwydd Iesu a phrofi ei ofal ohonynt dros y blynyddoedd a thros gyfnod y pandemig hefyd. Gweddiwyd dros y ddau gan Nan P-D ac fe'u hordeinwyd gan Cynthia Owen, Bangor, Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd a oedd hefyd yn traddodi'r cyngor iddynt. Roedd y gwasaneth dan ofal Marian Jones, Rhos Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain. Llwyddodd chwech i ganu emyn ar ddiwedd y gwasanaeth gyda Robert Parry yn cyfeilio ac roedd hi'n braf cael cloi ein hoedfa felly. Mae Robin a Gwenith yn parhau yn weithgar ym Methesda ers cyn eu codi yn flaenoriaid yn mis Mawrth 2020 wrth inni gyfarfod yno am y tro olaf cyn y clo mawr cyntaf. Bu edrych ymlaen at y gwasanaeth ers peth amser felly, fel popeth arall, a diolchwn am y cyfle hwn i'w gynnal ar y ffurf yma. Dymunwn fendith Duw ar eu gwasanaeth a'u bywyd yn ein plith.
Llawenhawn yn y newyddion da hefyd fod Robin a Gwenith wedi dod yn nain a taid i Noa, mab i Fflur a Rhys a brawd bach Celt. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Estyniad Ysgol Glanrafon

Mae'r estyniad yn codi'n sydyn ac mae hen edrych ymlaen at gael croesawu plant i'r dosbarthiadau newydd yn fuan. Bu cyffro mawr wrth i rai plant arwyddo'r walaiu yn ddiweddar ac mae'r olygfa o'r awyr yn rhoi gwell syniad i bawb am faint a siap yr adeilad newydd.

Mike Peters A'r Wal Goch

(gan Bethan Williams)

"Ma' gena'i broblem, Ma' gena'i erioed!
Dwi methu stopio siarad am bêl droed!"
Yn wahanol iawn i Alun Owens (Y Profiad / Y Parchedig Pop) faswn i ddim yn disgrifio fy hun fel ffan pêl droed mwya'r byd! I fod yn gwbl onest, ma' gena'i berthynas ddigon cymysglyd efo'r gêm!
Roeddwn i'n casáu pêl droed wrth dyfu i fyny gan fy mod i'n cofio'r feirniadaeth greulon oedd Dad yn ei dderbyn os oedd y bêl yn cyrraedd y rhwyd ac yntau yn y gôl! Ond ar y llaw arall dwi'n mwynhau'r cyffro o fod ynghanol torf o gefnogwyr sydd llawn gobaith mai eu tîm nhw fydd yn

fuddugol.
Mewn gwirionedd rwy'n gallu byw heb bêl droed, ond hefyd yn gwerthfawrogi'r pleser a'r wefr mae'r gem yn ei roi i lawer. Pan ddaeth cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiad cyfrinachol wedi ei drefnu gan Gymdeithas Pêl droed Cymru yn ddiweddar mi wnes i benderfynu mynd amdani am sawl rheswm. Rwy'n falch o fod yn aelod o'r Wal Goch a chefnogi Cymru yn Ewro 2020 oherwydd
a) Mae'n bwysig i mi bod fy mhlant yn gweld bod gan ferched le amlwg yn y wal goch
b) Mae'n angenrheidiol cefnogi ymdrechion y Gymdeithas pêl droed i amlygu'r iaith Gymraeg
c) Rwy'n teimlo balchder bod Dad wedi cyrraedd y brig ac wedi cael y fraint o wisgo crys Cymru dros hanner cant o weithiau.
ch) Yn dilyn cyfyngiadau hir Covid a'r tristwch yn sgil marwolaeth Dad roedd hwn yn gyfle i wneud rhywbeth gwahanol a threulio pnawn cyfa' yng nghwmni fy chwaer a'r plant – ac roedd hynny'n siŵr o olygu lot o hwyl a chwerthin!
Ar ôl gwirfoddoli wrth lenwi ffurflen gais ar y wê, cawsom gyfarwyddiadau i wisgo dillad cefnogwyr pêl droed Cymru ac i fod wrth y Cae Ras erbyn amser penodol. Doedden ni ddim yn gwybod beth oedd am ddigwydd nes ein bod ni'n troi fyny!
Dyna sioc oedd deall ein bod ni am fod yn "backing singers" i Mike Peters!!!!
Dyma i chi ddyn diymhongar a chyfeillgar oedd yn amlwg wrth ei fodd yn rhannu ei gân newydd efo ni, cefnogwyr pêldroed Cymru! Doedd dim amser i ymarfer – mynd amdani ar unwaith efo'r ffilmio a chael gorchymyn i fod yn y cefndir a neidio, dawnsio ac ymuno yn y gytgan! Wedyn roedd angen canolbwyntio ar y recordiad sain – Mike Peters yn canu'r gân unwaith ac i ffwrdd â ni wedyn yn ymuno nerth ein pennau yn y gytgan. Roedd Mike Peters yn llawn cyffro yn dweud wrthym wedyn y byddai ein lleisiau ni a chefnogwyr o ardaloedd eraill yng Nghymru yn cael eu defnyddio ar y record!
Mi roedd hwn yn brofiad unigryw a chofiadwy iawn, ond yr hyn sy'n galonogol yw gwybod bod yr holl elw fydd yn cael ei wneud o'r recordiad yn mynd i gefnogi elusennau ymchwil cancr.
Gweler lluniau: Gennod y 'Wal Goch' yng nghwmni Mike Peters yn recordio tu allan i'r Cae Ras yn Wrecsam.

CAPEL BETHEL NANT Y FFLINT

Gyda thristwch, bu raid i ni gau y drws am y tro olaf ar y 14eg o Ebrill. Cawsom wasanaeth Datgorffori y Capel. Roedd yn bnawn braf gyda Llywydd yr Henaduriaeth, Marian Lloyd Jones, a'r Parchedigion Huw Powell Davies, Eirlys Gruffudd Evans a Robert Parry yn cymryd rhan. Darllenodd Menna Coleclough tipyn o hanes yr achos fel a ganlyn:-
Ardal fechan yw'r Nant yn dwyn ei henw o'i chymeriad, sef y nant. Mae wedi ei lleoli rhwng yr Afon Ddyfrdwy a Mynydd Helygain, gyda'r nant fechan yn ymdroelli trwy ei chanol.
Ymddengys i'r achos gael ei gychwyn gan ychydig o gyfeillion o Helygain. Roeddynt yn cynnal Ysgol Sul mewn llofft ŷd yn perthyn i John Parry. Mae'r dyddiad hwn braidd yn ansicr. Roedd John Parry yn ffyddlon iawn i'r achos am flynyddoedd lawer. Roeddynt yn cael cynnal ambell wasanaeth arbennig yn Eglwys Helygain.
Ymhen ychydig amser o wasanaethu yn y llofft ŷd, fe adeiladwyd capel newydd yn y flwyddyn 1853. Ar y 10fed o Dachwedd 1853, symudodd y gynulleidfa i'r capel newydd (y Tŷ Capel erbyn hyn). Roedd y drefn fel a ganlyn:- Yn y bore roedd pawb yn mynd i'r llofft ŷd ac yna gorymdeithiwyd i'r capel newydd dan ganu yr hen bennill

'Ffarwel, gyfeillion annwyl iawn.

Dros ennyd fechan 'ni madawn.

Cafwyd cyfarfod o'r Ysgol Sul, ac yn y prynhawn cymerodd y Parchedig Evan Lloyd, Treffynnon, y gwasaneth. Roedd yn pregethu ar daith Sabothol Bagillt ar y pryd. Ni fu agoriad swyddogol tan y 10fed o Orffennaf 1854 gyda'r Parchedigion John Phillips, Bangor, Owen Howells, Tarvin, a John Jones, Wrecsam yn gweinyddu.
Capel bychan hynod ddiaddurn ydoedd, gyda llawr teils a meinciau yn llenwi'r llawr a phulpud. Bendith o'r mwyaf oedd agor y capel. Roedd y rhan fwyaf o'r ardal yn ddi-grefydd ac yn isel iawn eu moesau. Roedd hyn yn dod i'r golwg yn fwy ar y Saboth am nad oedd ganddynt unrhywbeth i'w wneud ond cyflawni drygioni.
Gwnaeth agor y capel bach Methodistaidd newid mawr i fywyd y preswylwyr trwy eu gwneud yn fwy ymwybodol o'u crefydd. Nid oes gwybodaeth bendant am y dyddiad y cychwynwyd yr achos yn Y Nant ond rydym yn tybio y buasai ychydig o flynyddoedd ynghynt. Cafodd y cofnodion cyntaf eu harddangos yn 1855 a hynny ond yn nodi mai'r nifer oedd yn mynychu yr Ysgol Sul oedd 68, a'r gwrandawyr yn 90 (mae'n anodd iawn credu heddiw!).
Cafodd y blaenoriaid cyntaf eu hethol yn 1866. Rydym yn meddwl mai dyma'r adeg y daeth Y Nant yn rhan o daith Sabothol Bagillt. Fel hyn oedd trefn y gwasanaethau – Ysgol Sul yn y bore, Gwasanaeth am 2 o'r gloch a Chyfarfod Gweddi am 6 o'r gloch efo seiat yn ystod yr wythnos.
Am flynyddoedd lawer, daeth brodyr ffyddlon o Fagillt bob bore Sul i helpu efo'r Ysgol Sul – John Jones Tŵr, William Parry Pentre Isaf, Christopher Charlton, Henry Welsh a William Redfern. Cerddodd y ddau a enwyd gyntaf o Fagillt bob Sul am un mlynedd ar ddeg. Enw arall oedd yn ffyddlon iawn oedd Edward Edwards Cefn a gafodd ei ddewis yn flaenor, ond am ryw reswm gwrthododd. Bu'n ffyddlon iawn i'r achos am flynyddoedd ac yn athro Ysgol Sul arbennig ar hyd ei oes.

Ar ôl addoli yma am rai blynyddordd, adeiladwyd capel newydd yn 1867 sef Capel Bethel. Agorwyd y capel yn ystod yr Haf. Cafwyd y cyfarfod cyntaf yn ystod yr wythnos, a'r Sul cyntaf, pregethwyd gan y Parchedigion William Pierce o Rhosesmor a William Evans Y.H. o Lerpwl. Cafodd y capel ei agor yn swyddogol yn hwyrach yn y flwyddyn gan y Parchedigion Ebenezer Davies, Joseph Thomas a W Pierce. Cafodd tri blaenor eu hethol efo dau yn ymgymryd â'r gwaith.
Cafodd Cylch Sabothol ei threfnu efo Bagillt a Helygain a'r Parchedigion T.M.Jones, J Ivor Jones a William Williams Henblas yn gofalu amdanynt, Dyma restr o'r blaenoriaid yn 1909:- Edward Winter, John Parry, Jesse Winter, Daniel Parry, J Hooson, D Williams a J Thomas. Yn ddiweddarach R.O Thomas a wasanaethodd y capel yn ffyddlon iawn am 60 mlynedd ac yna W Barker yn 1962 a Menna Coleclough yn 1986 ac yr unig un heddiw.
Ein Gweinidog olaf oedd y Parchedig Cledwyn Griffith – bu iddo ymddeol yn y flwyddyn 1990. Rydym wedi bod yn ddi-fugail ers hynny ond rydym yn ffodus iawn gyda Gweinidogion yr Henaduriaeth yn gofalu amdanom pan fo'r angen.
Roeddem yn ffodus iawn i ddathlu can mlwyddiant a hanner o'r achos yn ystod yr Haf 2017 efo cymanfa ganu lwyddiannus a gwasanaeth fendithiol dan arweiniad y Parchedig Gareth Edwards. Mae'r achos yn Y Nant wedi mynd ymlaen yn dawel iawn am yr holl flynyddoedd ac felly y bu tan heddiw. Mae'r capel bach wedi gwneud ei waith. Mae'n ddiwedd cyfnod, ac yn amser i symud ymlaen.

Menna Coleclough

Cyfle i wirfoddoli gyda Gŵyl Daniel Owen 2021

A hithau'n Wythnos y Gwirfoddolwyr o'r 1af i'r 7fed o Fehefin tybed oes yna ambell un o ddarllenwyr Papur Fama ac awydd i ymuno gyda'r criw sydd yn trefnu Gŵyl Daniel Owen yn flynyddol? Mae'r Ŵyl yn cael ei chynnal am wythnos ym Mis Hydref ers 2010 yn nrhef Yr Wyddgrug a'r cyffiniau. Eleni bydd yr Ŵyl yn cael ei chynnal o Ddydd Gwener 15fed i Ddydd Gwener 22ain Hydref. Bwriad yr Ŵyl ddwyieithog yw cynnig profiadau diwylliannol amrywiol sy'n codi ymwybyddiaeth am fywyd a gwaith Daniel Owen a'r cyfle i ddysgu am a gwerthfawrogi treftadaeth yr ardal. Bydd y rhaglen yn cynnwys

darlithoedd, digwyddiadau cymdeithasol a theithiau cerdded gan gadw at unrhyw gyfyngiadau all fod mewn grym. Rydym yn ffodus fod gennym bartneriaethau a noddwyr sydd wedi cefnogi'r Ŵyl yn rheolaidd dros y blynyddoedd ond rydym hefyd yn awyddus i ddennu gwaed newydd. Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig sydd am gyfrannu i'r gymuned leol yr ydym, os rhywbeth, wedi dod i'w gwerthfawrogi'n fwy dros gyfnod y pandemig. I ddangos diddordeb cysylltwch â gwyldanielowenfestival@gmail.com

DWY DDINAS - UN GAMLAS

Ymysg darllenwyr Papur Fama tybed a yw nifer cefnogwyr Lerpwl a ManU fwy neu lai yr un faint? Pe baem yn eu casglu at ei gilydd yn yr un ystafell, perygl y buasai'r ymryson yn troi'n danllyd a phetai meuryn yn ceisio cadw trefn tybed a fuasai'r ddwy ochr yn cwestiynu ei dras? Sefydlwyd tîm ManU ym 1878 a Lerpwl ym 1892 – y ddau gydag enwau gwahanol i'r presennol ond yr oedd yr ysbryd cystadleugar rhwng y ddwy ddinas yn bodoli ymhell cyn dyddiau pêl droed fel yr adnabyddwn y gêm heddiw.
Yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd Lerpwl ar ei mwyaf llewyrchus yn borthladd pwysig ac ail ddinas yr Ymerodraeth Brydeinig a masnach y byd yn llifo drwyddi yn enwedig o diroedd yr Amerig. 'Roedd yn denu mewnfudwyr o bob rhan o'r byd – yn ceisio gwaith a chyfle am fywyd gwell. Bu'r mewnfudwyr o Gymru yn ddylanwadol iawn yn ffyniant y ddinas. 'Roedd tyfiant aruthrol mewn diwydiant yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn ystod y ganrif ac angen mawr am nwyddau crai – yn arbennig cotwm ar gyfer y diwydiant hwnnw ym Manceinion a'r ardal o'i chwmpas. 'Roedd elw i'w wneud hefyd drwy allforio nwyddau gorffenedig.
Fel tref neu ddinas, mae Manceinion yn llawer hŷn na Lerpwl fel y dengys yr enw Rhufeinig Mancunium a hithau hefyd , yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ddinas lewyrchus iawn a'i chyfoeth wedi ei seilio yn bennaf ar y diwydiant cotwm. Y pwysicaf o holl anghenion y diwydiant hwnnw oedd cyflenwad digonol o ddŵr a chyda Manceinion wedi ei sefydlu nepell o'r Penwynion (asgwrn cefn Lloegr) nid oedd prinder o gwbl. Nid oedd gan Lerpwl ei dŵr ei hun ond 'roedd ganddi borthladd. A dyma asgwrn y gynnen – yr unig ffordd o gludo'r cotwm crai i Fanceinion oedd drwy borthladd Lerpwl.

Afon anodd iawn i'w mordwyo yw'r Ferswy, mae'n ymddolenu gymaint, mae bron yn cyfarfod â hi ei hun yn llifo'r ffordd arall mewn rhai lleoedd a dim ond y cychod lleiaf fedr fynd arhyd-ddi. Bu peth trafod ar adeiladu camlas yn chwarter cyntaf y ganrif yn cynnwys hyd yn oed cysylltu'r Ddyfrdwy â chamlas Bridgewater. Rhoes dyfodiad y rheilffyrdd daw ar hynny a dyma ni yn ôl yn Lerpwl. Dim dewis. 'Roedd perchnogion y dociau a pherchnogion y rheilffyrdd a'u bysedd ar gorn gwddf Manceinion ac yn codi crogbris am drosglwyddo nwyddau o'r llongau hyd at y melinau cotwm. Roedd hyn yn costio mwy na'r cludiant ar draws yr Iwerydd ac nid oedd perchnogion y melinau yn barod i oddef hynny. 'Roedd Manceinion hefyd yn dechrau colli tir i ddinasoedd tebyg yn yr Almaen.

Ym 1885, er gwaethaf gwrthwynebiadau chwyrn o Lerpwl – rhai y gellid eu cyfiawnhau – aeth "Mesur Camlas y Llongau" drwy'r Senedd ac ar Dachwedd 11 1887 torrwyd y dywarchen gyntaf. Digwyddodd hyn yn Eastham ychydig bellter i fyny'r afon o Benbedw. Cofier mai dim ond rhyw bedair troedfedd o ddyfnder o ddŵr mae badau cyffredin ar ein camlesi yn ei dynnu ond rhaid oedd i'r gamlas newydd yma dderbyn llongau yn syth oddiar y cefnfor a'r rheini yn tynnu degau o droedfeddi.
Yn gyffredinol, aeth y gwaith ymlaen yn weddol rwydd, gwyddai'r peirianwyr fwy neu lai beth oedd o'u blaenau. Byddai nifer o briffyrdd yn croesi llwybr y gamlas – rheilffordd hefyd. Yn achos y priffyrdd rhaid oedd adeiladu pontydd tro i sicrhau digon o uchder rhwng y dŵr a'r ffordd. Yn achos y rheilffordd – codi gorglawdd odditan y cledrau oedd yr ateb. Ond beth i'w wneud pan mae dwy gamlas yn croesi ei gilydd? Yr ateb unigryw oedd pont dro oedd mewn gwirionedd yn danc dŵr. Adeiladwyd dorau i ynysu camlas Bridgewater oddiwrth y tanc yna, a phan oedd llong yn teithio ar gamlas Manceinion, troi'r bont (neu'r tanc) i wneud lle. Mae'r bont yn pwyso 1,450 tunnell – 800 o'r rheini yn ddŵr. Gyda trigain troedfedd o wahaniaeth uchder rhwng y Ferswy yn Eastham a'r dociau ym Manceinion 'roedd angen nifer o ddociau bob un gyda llifddorau i godi lefel y gamlas. Rhaid hefyd oedd cofio fod gostyngiad o tua 30 troedfedd yn lefel yr afon yn digwydd mewn chwe awr rhwng penllanw a thrai yn Eastham a gofalu nad oedd hynny yn rhoi gormod o bwysau ar yr argloddiau rhwng y gamlas a'r afon. Mae'r gamlas a'r Merswy wedi eu pontio lawer gwaith wedyn a'r tair pont mwyaf nodedig yw Pont Runcorn sydd a'i bwa i'w weld o Foel Fama, Pont Thelwall sydd yn cludo traffig yr M6 a'r diweddaraf - ail Bont Runcorn. I groesi hon rhaid defnyddio un o'r dulliau diweddaraf o dalu'r doll!
Gyda menter mor anferth a hon yn cyflogi mwy na 16,000 o bobl 'roedd yn anochel fod damweiniau yn digwydd. Anafwyd dros 3,000 a lladdwyd dros 130 o ddynion. 'Roedd gan y prif beiriannydd, Thomas Walker, barch mawr at ei weithwyr. Gofalodd fod cyfleusterau cymorth cyntaf ar gael ymhob safle a hefyd sefydlodd dair ysbyty wrth ochr y rheilffyrdd oedd yn arwain at y gamlas. Y llawfeddyg Syr Robert Jones, un o deulu'r meddygon esgyrn enwog o Fôn, oedd yn gofalu am yr ysbytai. Yr un Robert Jones a sefydlodd, gydag Agnes Hunt, ysbyty enwog Gobowen.
Cwblhawyd y gwaith, ac i nodi'r gamp trefnwyd gorymdaith o gychod yn cychwyn o Eastham ar ddydd calan 1894. Agorwyd y gamlas yn swyddogol gan y frenhines ar Fai 21. Er hyn i gyd ni ddaeth llwyddiant masnachol yn syth. Rhoes awdurdodau Lerpwl a Llundain yn ogystal chwmni'r rheilffyrdd bob rhwystr gelyniaethus yn y ffordd. Ond yn raddol trechwyd y gwrthwynebiadau a chysylltwyd Manceinion â bron yr oll o ffyrdd masnachol y byd. Un penderfyniad pwysig oedd bod Manceinion yn canolbwyntio ar symud nwyddau a gadael y teithwyr i Lerpwl.
Daeth yr hen oes euraidd i ben. Collodd Lerpwl ei masnach teithwyr a Manceinion yr un modd ei masnach nwyddau. Ystyriwyd cau y gamlas o Runcorn ymlaen ar un adeg. Aeth porthladd Manceinion bron yn adfail. Ond daeth tro arall ar fyd. Erbyn hyn mae'r gamlas a phorthladd Manceinion – neu Ceioedd Salford – o fewn un berchnogaeth a mae llewyrch yn ôl ar y gamlas. Mae glan yr afon ar ochr Lerpwl

hefyd wedi ei weddnewid a'r ddwy ddinas oedd unwath yn elyniaethus tuag at y naill a'r llall yn awr fel dwy efeilles gyda'r gamlas brysur yn ddolen gyswllt. Gellir mynd ar daith ddiddorol a phleserus ar un o'r fferïau rhwng Seacombe a Salford a gweld y llongau mawrion a'r tanceri olew sydd yn bwydo'r diwydiannau yng nghyffiniau Ellesmere Port a Runcorn.



Tybed a yw'r teimladau rhwng y ddwy garfan o gefnogwyr y bel droed grybwyllwyd ar y cychwyn wedi newid? Go Brin! I gadw'r ddysgl yn wastad ymysg darllenwyr Papur Fama, rhaid cofio fod gan y ddwy ddinas dîm pel droed arall sydd yn chwarae yn y brif gynghrair sef Everton a ManC. Cywir yw dweud fod gan glwb Lerpwl fwy o lestri arian yn ei gwpwrdd ond rhaid cofio fod Everton wedi chwarae ar gae Anfield cyn bod clwb Lerpwl yn bod. Cywir hefyd yw dweud fod ManU wedi bod â mwy o ymwybyddiaeth ym meddyliau'r cyhoedd na ManC ond y 'C' sydd yn yr oruchafiaeth beldroediol ar hyn o bryd. Ond yng nghyd destun yr erthygl hon, mae arwyddocâd pwysicach i ManC!
Mae i bob clwb pel droed o sylwedd ei arfbais a mae'n debyg fod patrwn neu gynllun hwnnw yn newid o bryd i'w gilydd. Nid yw ManC yn wahanol yn hyn o beth ond, mae dau beth yn gyffredin ym mhob fersiwn. Mae pob un yn dangos llong a thair llinell. Mae'r llong yn mynegi cysylltiad uniongyrchol Manceinion âr môr a'r tair llinell yn cynrychioli'r tair afon, yr Irk, y Medlock a'r fwyaf, yr Irwell i gyd yn llifo drwy'r ddinas ac yn y pendraw yn arllwys i'r Ferswy. Tybed ai'r 'U' neu'r 'C' sydd yn gwir gynrychioli dinas Manceinion?

Hill & Roberts
CHARTERED ACCOUNTANTS
CYFRIFWYR SIARTREDIG

Am wasanaeth proffesiynol a lleol:

- Cyfrifon busnes a chwmni
- Treth incwm a hunanasesiad
- Treth Ar Werth (ar-lein)
- Cyflogau a Thalu Wrth Ennill (ar-lein
- Treth etifeddiaeth ac enillion cyfalaf
- cyngor busnes

1 Tan-y-Castell,
Rhuthun, LL15 1DQ
Ffôn 01824 704545

E-bost: Ffion@hillandroberts.co.uk

Owen Smith

Mae rhedwr addawol o Sychdyn, Owen Smith, yn gobeithio cynrhychioli Prydain yn y gemau Olympaidd yn Tokyo yn yr haf. Mae cyn-ddisgybl Ysgol Glanrafon a Maes Garmon, eisioes wedi cynrhychioli Prydain yn y tim cyfnewid 4 X 400 medr ym Mhencampwriaeth Dan Dô Ewrop, gan ennill y fedal efydd. Llongyfarchiadau mawr i Owen ar ei lwyddiant hyd yn hyn a dymunwn pob lwc iddo yr haf yma.



Amser i feddwl

Buom yn cofio yn ystod yr wythnos bod blwyddyn wedi mynd heibio ers lladd George Floyd yn America. Rhywbeth i bobl yr UDA i gofio amdano ac i weithredu arno, meddech. Ond fe gyffyrddodd anghyfiawnder ei farwolaeth rhyw nerf ar draws y byd a phob un ohonom yn gorfod ystyried a oeddem ni yn wir yn credu bod 'Bywydau Du yn Bwysig'/ Black Lives Matter.

Yn yr eglwys ac yn y Testament Newydd y dysgwn nad oes gwahaniaeth mwyach rhwng Iddew a Groegwr, caeth na rhydd, gwryw na benyw, (Galatiaid 3:28) ac felly, ni all gwahaniaeth fod rhwng du a gwyn nac unrhyw hil a'i gilydd yn ngolwg Duw a greodd pob cenedl ar y ddaear o un gwaed (Actau 17:26).

Un peth yw credu ein bod yn gyfartal yng ngolwg Duw, peth arall yw byw felly. Mae gennym ni y fath freintiau yma yng Nghymru ac fel rhan o un o economiau cyfoethocaf y byd, a chyda'r breintiau hynny y mae cyfrifoldeb yn dod. Pwy oedd y Floyd a roddodd ei enw i deulu George tybed? Cael cyfenw eu perchnogion oedd y caethweision yn America, ac mae 'Floyd' yn swnio fel enw Cymraeg i mi yn ei gychwyniad – yn llygriad Saesneg o Llywd. Bu llawer o Gymry yn gysylltiedig efo'r farchnad gaethwasiaeth ac yn berchnogion caethweision.

O'r cychwyn, wrth lunio eu cyffes ffydd a'u rheolau disgyblaethol, fe ddywedodd ein Cyfundeb ni nad oedd neb i gael ei ystyried yn aelod yn yn un o'n heglwysi os oedd o unrhywbeth i'w wneud efo'r hyn oedd yn anghyfiawn, a'r fasnach mewn caethion.

Sut y byddai gorchymyn felly yn edrych i ni heddiw tybed? Na chai neb ei ystyried yn aelod eglwysig os oedd ynglyn ag unrhyw fath o orthrwm ar dlodion neu hil neu genedl arbennig. Neb a fyddai yn gwneud unrhyw fath o wahaniaeth rhwng pobl a phobl. Neb a fyddai yn gysylltiedig â defnyddio eu breintiau i gadw eraill mewn tlodi! Pwy a fyddai ar ôl gennym fel aelodau tybed?

Gallwn wneud pethau bychain o blaid cyfiawnder yn ein byd, fel clicio i arwyddo deiseb ar y we neu rhannu rhywbeth ar ein cyfrifon cymdeithasol, pethau sydd heb gostio fawr ddim inni. Mae Iago yn sôn am wir grefydd yn gofalu am y rhai sydd mewn cyfyngder (Iago 1:26), a Iesu yn sôn am fynd yr ail filltir, dros y rhai sy'n ein gorfodi i fynd un filltir hyd yn oed (Mathew 5:41), ac Eseia yn sôn am wir ympryd i Dduw (Eseia 58). Son am bethau sy'n costio inni mae'r rhain i gyd. Bydded inni fod yn barod i gyfrif y gost o fod yn sefyll gyda'r Arglwydd Iesu o blaid y rhai heb lais a'r diamddiffyn fel y Safodd Iesu ei hun drosom ni a dioddef er ein mwyn heb gyfrif y gost.

Cysylltiadau EBC gyda'r Eglwys fyd-eang Mai 2021

Eglwys Bresbyteraidd Myanmar

Braint yw cael bod yn aelod o grŵp 'WhatsApp' sy'n gweddïo gyda ac yn cynnal ein teulu Eglwysig yn Myanmar. Cefais fy ngwahodd i fod yn aelod o'r grŵp bychan rhyngwladol yma dilyn cyfarfod yr 'Annual Members Meeting' CWM yn mis Ebrill. Cefais gyfle i sgwrsio gyda'r Parch Ram Thanga Ysgrifennydd Cyffredinol PCM (Eglwys Bresbyteraidd Myanmar). Yn dilyn y cyfarfod cefais fy ychwanegu at y grŵp yma, ac y mae newyddion dyddiol yn fy nghyrraedd ynglŷn â'r sefyllfa dorcalonnus y mae'r Eglwys ar wlad i gyd yn ei wynebu yn dilyn y protestiadau torfol cyson ar draws Mayanmar ers i'r fyddin gipio rheolaeth o'r wlad ar 1 Chwefror eleni. Cafodd yr arweinydd etholedig, Aung San Suu Kyi, ac aelodau ei phlaid, y Gynghrair Genedlaethol dros Ddemocratiaeth (NLD), eu cadw yn y ddalfa. Yr un diwrnod fe ffodd miloedd o deuluoedd o Gristnogion o bentrefi talaith Karen i'r jyngl cyfagos. Oddi ar hynny mae cannoedd o bobl, gan gynnwys plant, wedi cael eu lladd a miloedd wedi ffoi o daleithiau eraill hefyd. Yn ystod yr wythnos diwethaf mae talaith Chin sy'n ffinio gyda Mizoram wedi cael ei thargedu. Yn ôl y sôn dyma'r dalaith dlotaf a lleiaf datblygedig ym Myanmar. Dyma gartref yr Eglwys Bresbyteraidd yn Myanmar i bob rheswm. Rhannwyd lluniau erchyll o rai yn gorwedd yn farw ar y strydoedd, gan gynnwys plant. Saethwyd un bachgen bach 10 mlwydd oed yn farw yn Tedim wrth iddo gasglu plastic ar ochr y ffordd i gael ei ail-gylchu.

Mae 19 ohonom yn aelodau o'r grŵp, rhai o deulu CWM yn fyd-eang a Chyngor Eglwysi'r byd, eraill yn benodol o Myanmar a Synod Mizoram.

Mae'r sefyllfa yn diriwio yno'n ddyddiol, a gweddill y byd yn fyddar i'r gri a'r sefyllfa yn hollol druenus a ninnau'n ddiymadferth wrth dderbyn y negeseuon. Wylais droeon dros y sefyllfa. Mewn ymateb, yr unig beth allwn ei wneud ar hyn o bryd yw gweddïo dros y sefyllfa a rhannu'r stori erchych yma gyda gweddill y byd. Mae'n bwysig iawn ar ôl dweud hynny nad ydym yn rhoi bywydau neb sy'n rhan or grŵp yma, nac unrhyw grŵp tebyg, dan fwy o beryg. Mae'r sefyllfa wleidyddol, grefyddol a chymdeithasol yn eithriadol o gymhleth.

Cefnogi Ysbytai Gogledd Ddwyrain yr India

Lansiwyd Apêl Covid 19 dros Ysbyty H.Gordon Roberts yn Shillong, ac Ysbyty Norman Tunnel yn Jowai dydd Mercher diwethaf. Fel y gwyddoch, mae effeithiau Covid 19 yng Ngogledd Ddwyrain India ac yn enwedig ym Meghalaya yn cynyddu bob dydd. Y nod ariannol yw codi £30,000

Mae'r ddwy ysbyty yn orlawn o gleifion, ac maen nhw nawr yn ystyried y ffordd orau o sicrhau mwy o le, ac yn trefnu staff, sydd wedi bod dan bwysau ers cryn amser, i allu rhoi mwy o'u hamser. Mae prinder ocsigen meddygol ac awyryddion hefyd, ac mae'n anodd trin nifer y cleifion heb yr adnoddau meddygol angenrheidiol. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd yr angen cymdeithasol ac economaidd hefyd yn dwysáu yn nhalaith Meghalaya fel sawl talaith arall yn India dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi cychwyn grwp 'WhatsApp' gyda chriw o Meghalaya i'n cynorthwyo ni i rannu gwybodaeth dros ein rhwydweithiau cymdeithasol yn ddyddiol hefyd.

Mae'n diolch yn fawr i'r Parch Gwenda Richards am ein harwain fel Eglwys i ymateb heb oedi i'r sefyllfa argyfyngus yma.

Y sefyllfa yn Israel a **Thiriogaeth Feddianedig Palesteina. 19eg Mai 2021**

Cawsom fel arweinwyr Eglwysi ein gwahodd i gyfarfod briffio a thrafodaeth gydag arweinwyr eglwysig ar draws y DG bore dydd Mercher diwethaf i glywed ymhellach am y sefyllfa sydd yn datblygu yn Israel a Thiriogaeth Feddianedig Palesteina. Cawsom gwmni William Bell, sef Pennaeth Cymorth Cristnogol yn y Dwyrain Canol, gyda chyfraniadau gan bartneriaid Cymorth Cristnogol yn Israel a Thiriogaeth Feddianedig Palesteina, sef Ahmed Sourani.

Adroddodd Ahmed Sourani sy'n byw a gweithio ar llain Gaza, beth yw'r angen ar lawr daear ar hyn o bryd ble mae 2 filiwn o bobl yn byw ar lain o dir yr un maint ag Ynys Wyth.

Yn ystod y dyddiau diwethaf bu dros 1000 o ymosiadau o'r awyr, 200 o bobl wedi eu lladd, 65 ohonynt yn blant, a llawer iawn mwy wedi eu hanafu. Mae llawer o'r tai wedi eu difrodi, 1010 yn llwyr, 6744 yn rhannol, 132 o dyrau wedi eu dymchwel. Mae adeiladau cyhoeddus wedi cael eu bomio, ysbytai, ysgolion a thros $25 miliwn o ddifrod i dir amaethyddol.

Hon yw'r 4ydd rhyfel rhwng y ddwy ochr ac mae Cymorth Cristnogol fel llawer iawn o fudiadau eglwysig, (WCC, CTBI, EAPPI, Eglwysi Jerwsalem etc.) ac eglwysi unigol, wedi bod yn galw am gadoediad. Mae'r cadoediad brau sydd wedi ei sicrhau ar hyn o bryd angen ei gyfnerthu a'i wregysu mewn cyfiawnder. Bu gofyn inni anfon ebost i'r Prif Weinidog yn gofyn am i arweinwyr yn rhyngwladol i roi pwysau cynyddol am gadoediad, y mae bron i 10,000 wedi gyrru ebost. Ond mae'r llythyr yn parhau yn berthnasol wrth iddo alw hefyd am fynd i'r afael ag achosion y gwrthdaro a rhoi lle i gyfiawnder a thegwch yno: https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/stand-palestinians-and-israelis-call-lasting-peace-today

Pwysleisiodd William Bell yr angen i weld cyfiawnder go iawn yn cael ei amlygu yno. Adroddodd fel yr oedd plentyn 15 oed wedi dweud wrtho unwaith ym Mhalesteina, 'welai di ar ôl y rhyfel nesaf'. Arhosodd hynny yn fyw yn ei gof. Mae angen parhau y pwysau rhyngwladol i weld rhyddid a chyfiawnder yn cael eu lle yno.

Nan Wyn Powell-Davies.

Siôn Huw Davies

Llongyfarchiadau mawr i Siôn Huw Davies, athro 50 oed o Brestatyn ar golli dwy stôn a dau bwys drwy ddilyn cynllun FFIT Cymru. Meddai Sion sy'n wreiddiol o Gaerwys ar ddechrau'r rhaglen "Er mod i'n gallu rhoi'r masg ymlaen ac actio fel mod i'n hapus, o'n i'n ymwybodol iawn mod i ddim yn hapus efo'n hun, a bod rhaid i bethau newid. Welis i hysbyseb FFIT Cymru, a nes i ddeud 'iawn, ti'n gwneud hwn rŵan, ac os ti'm yn ei 'neud o rŵan, 'nei di fyth gwneud'.

"Y peth sydd wedi newid mwya' ydi yn feddyliol, y pethau does neb yn gweld. Mae'n hawdd gweld mod i 'di colli pwysau, ond dwi 'di newid fy agwedd tuag at bethau, dwi 'di dysgu lot am fwyd, fy mherthynas i efo bwyd, a fy agwedd i at symud... mae pob dim 'di newid."

"Mae 'na lawer iawn o ffordd i fynd, ac mae pob diwrnod yn fricsen yn y wal - a mewn ffordd, dwi'm yn gorfod poeni am y wal o gwbl. Be' dwi'n gorfod poeni amdano fo ydi rhoi bricsen heddiw i lawr; 'neith y wal adeiladu ei hun wedyn.

Mae FFIT Cymru wedi achub fy mywyd i, ond mae o hefyd wedi rhoi bywyd i mi.

Dwi'n annog pawb i gychwyn bwyta'n iach ac ymarfer y corf – ydechrau ydi'r rhan anodd. Ar ôl 'chydig wythnosau, ti'n gweld y gwerth, a mae o werth pob ymdrech."

Cell Cymdeithas Yr Iaith, Sir Y Fflint

Bydd cefnogwyr lleol a chenedlaethol Cymdeithas yr Iaith yn ffurfio “argae dynol” fel arwydd o benderfyniad y mudiad i atal chwalfa cymunedau Cymru yn sgil yr argyfwng tai. Mae disgwyl i gannoedd o bobl ddod ynghyd ar argae Tryweryn ger Y Bala am 1 o’r gloch ar brynhawn Sadwrn, y 10fed o Orffennaf.

Bydd y cefnogwyr yn llofnodi galwad yn mynnu bod Llywodraeth Cymru’n “gweithredu ar frys ac mewn modd radical i sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu rheoli’r farchnad dai a’r broses gynllunio i sicrhau cartrefi i’w pobol”.

Bydd Dafydd Iwan, Delyth Jewell AS Plaid Cymru, a Cian Ireland, ymgeisydd y Blaid Lafur yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn etholiadau’r Senedd eleni, yn annerch y dorf.

Yn ymuno â nhw, bydd Branwen Niclas, a gafodd ei charcharu am ddeuddeg mis 30 mlynedd yn ôl am ei rhan yn ymgyrch Deddf Eiddo y Gymdeithas.

Mae Mark Drakeford, Prifweinidog Cymru, eisoes wedi addo gweithredu i atal yr anghyfiawnder, a bydd y Gymdeithas yn ymgyrchu i sicrhau mai cyfres o gamau radicalaidd i daclo’r sefyllfa a gymerir, yn hytrach na mesurau gwag. Tydy’n cymunedau ddim yn gallu aros ddim mwy.

Daw hyn wedi i Gapel Tom Nefyn ym Mhistyll, Pen Llŷn, gael ei werthu mewn ocsiwn am £257,000, ac wrth i Gyngor Tref Nefyn alw ar gynghorau’r gorllewin i ddod ynghyd er mwyn mynd i’r afael â’r sefyllfa.

(Ar ran Gangen Bro Yr Wyddgrug)

Danadl Poethion.

Mae’r dail anhygoel yma wedi bod yn ddefnyddiol ers canrifoedd o flynyddoedd fel modd o drin cyflyrau iechyd. Roedd trigolion yr Hen Aifft er enghraifft yn defnyddio danadl poethion er mwyn lleddfu poen cefn a chryd y cymalau. Mae tystiolaethau iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer ecsema, gowt ac anemia i enwi ond rhai. Dwi’n cofio i fy nghaid ddweud fod ei fam yn eu coginio mewn ‘chydig o fenyn pan oedd yn ifanc.

Erbyn hyn, mae’r mwyafrif yn eu gweld fel chwyn sy’n

pigo a llosgi - unai mae angen cadw draw oddi wrthynt neu rhoi’r menyg garddio ymlaen a chael gwarod ohonyn nhw. Dwi’n cyfeddef – dyna oeddwn i’n ei wneud tan yn ddiweddar. A finne wedi bod yn prynnu tê danadl poethion ers blynyddoedd, sy’n cael ei adnabod fel un o’r ‘superfoods’, nes i feddwl un diwrnod tra’n chwynu – pam aflwydd dwi’n gwario arian ar rhywbeth sy’n llythrenol yn tyfu ar stepen fy nrws?! Felly yn lle taflu’r dail i’r domen y tro hwnw, dod a nhw i’r tŷ i wneud paned – a blasus iawn oedd o hefyd.

Tydy natur yn wych dudwch? Ma’r dail bach yma ond yn un enghraifft o sut mae natur yn darparu bwyd i ni sydd yn bwysig i’n iechyd ar adeg arbenig o’r flwyddyn. Yn naturiol mi rydym ni’n bwyta mwy o fwydydd trwm, sy’n uwch mewn carbohydradau a braster dros y gaeaf, yn union fel pobl yr oes o’r blaen yn bwyta fel hyn er mwyn cadw’n gynnes dros y misoedd oer. Erbyn y gwanwyn, mae’r iau yn barod i gael ‘ditocs’ a dyna’n union be’ mae’r dail gwyrdd yma yn eu darparu. O ganlyniod i’w nodwedd gwrthocsidol (antioxidant) sydd ganddo, mae’n effeithiol iawn fel ffordd o warchod yr iau rhag gwenwynau ac hefyd yn lleddfu enyniad (inflammation).

Wna i ddim dechrau rhestru’r holl fitaminau, mineralau a maeth phyto sydd mewn Danadl poethion – mae cymaint ohonyn nhw, yn union fel nifer o ddail gwyrdd tywyll eraill, megis sbigoglys a dail bresych gwyrdd tywyll. Ond oeddych chi’n ymwybodol fod y dail yma, yn enwedig y rhai ifanc, hefyd yn cynnwys protin ac olewyddion da? Gelwir yr olewyddion yn Essential Fatty Acids (EFA). Ni all ein cyrff greu rhain – mae’n rhaid iddynt ddod o’n deiet. Mae astudiaethau yn dangos fod gan pobl sydd yn bwyta digonedd o olewyddion da (EFA) bioamrywiaeth uwch o facteria da yn y colyddyn. Y gorau yw iechyd ein perfedd, y gorau yw ein system imiwnedd. Mae cyswllt clir rhwng iechyd y perfedd a difrifoldeb Cofid yn ogystal â nifer enfawr o gyflyrau iechyd eraill.

Ydych chi’n gweld danadl poethion fel chwyn anifyr, neu’n blanhigyn maethlon, meddyginiaethol, sy’n donic i’r corff a’r enaid? A’r cwbl am ddim!

Beth am roi cynnig ar wneud paned danadl poethion. Berwi’r dail ifanc mewn dwr am ychydig funudau cyn ei hidlo. Yn ddelfrydol, ei yfed mewn heddwch!

Cawl – ffrio nionyn, moron a seleri mewn ychydig o fennyn ghee / olew o’ch dewis. Tywallt stoc llysieuol a mudferwi nes i’r llysiau feddalu. Ychwanegu’r dail danadl poethion ifanc a’u coginio am ychydig funudau yn unig nes wedi gwywo. Pinsied o halen i roi blas a blendio’r cwbl yn esmwyth. Mwynhewch!!

Elen Lloyd Wynne Hyfforddwr Iechyd a Lles Holistaidd

Diolch Darren!

Mae Darren Morris, yr hogyn lleol a fagwyd yn Shotton, yn gadael ei waith fel Swyddog Datblygu’r Urdd ar ôl tair mlynedd ar hugain.

Bu Darren yn ddisgybl yn Ysgol Croes Atti cyn derbyn ei addysg uwchradd yn Ysgol Maes Garmon. Erbyn hyn, mae o wedi ymgartrefu ym Mhentre’ Cythraul gyda’i wraig a’i blant.

Dechreuodd ei yrfa fel Swyddog Gweithgareddau Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn gan ymddiddori mewn chwaraeon a magu sgiliau yn y gweithgareddau dwr ac awyr agored. Pum mlynedd yn ddiweddarach, cafodd ei benodi yn Swyddog Datblygu Urdd Gobaith Cymru yma yn y Gogledd

PARC BRYN Y BEILI - Y CYNNYDD DIWEDDARAF PRIF WAITH CONTRACT,

BRON WEDI’I GWBLHAU:

Cyrhaeddodd T.G.Williams Cyf. o Lanelwy ‘gwblhad ymarferol’ ar y prif waith adeiladu ganol Ebrill 2021, ac maent bellach yn didoli’r mân bethau ar ôl yn unig. Disgwylir i’r llwybrau gael eu gorffen erbyn diwedd mis Mai. Dechrau mis Mehefin, bydd timau Cyngor Sir y Fflint yn mynd i’r afael â thacluso’r Mwnt, y coed a’r coetiroedd, ar draws y Parc. Y nod yw cael y Parc i gyflwr da cyn gynted â phosibl, wrth i’r contractwyr dynnu’n ôl o ardaloedd y safle adeiladu, a chyn i Arolygwyr Baner Werdd ‘Cadwch Cymru’n Daclus’ ddod yno i asesu cyflwr y Parc.

Y GANOLFAN NEWYDD: Mae’r adeilad yn edrych yn hardd iawn wedi’i baentio mewn gwyn gyda chyffyrddiadau o wyrdd saets, a’i do ‘gwyrdd’ o sedwm. Mae yna lawer o osodiadau a manion amrywiol i’w hychwanegu o hyd, ond dylid ei orffen cyn bo hir. Mae Swyddog Prosiect Bryn y Beili bellach yn cynllunio rhaglen brysur o ddigwyddiadau ar gyfer y misoedd i ddod, wrth i gyfyngiadau pandemig Covid-19 yng Nghymru leddfu, gam wrth gam.

GWAITH YMARFEROL Y FFRINDIAU YN Y PARC: Rydym wedi dechrau gweithio yn y Parc unwaith eto! Mae’r giât-fynedfa newydd (heb stepiau), yn well o lawer.

Ffrindiau yn ail-ddechrau eto ar ein gwaith ymarferol yn y Parc – ar 3ydd Mai 2021.

Rydym wedi bod yn brysur iawn yn y Parc yn yr wythnosau diweddar. Fe wnaethon ni blannu 200 o eirlysiau sengl a 100 o eirlysiau dwbl ar ochrau’r llwybrau; ac wedyn,

Ddwyrain lle bu’n llwyddiannus yn trefnu ac yn arwain gweithgareddau amrywiol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd eang!

Hoffai Papur Fama ddymuno’n dda iddo yn ei swydd newydd gyda’r Gwasanaeth Ieuenctid yma yn Sir Y Fflint gan obeithio y bydd Darren parhau i gynnal y gwasanaethau angenrheidiol i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg yma yn Sir Y Fflint.

ychwanegu mwy o gennin Pedr i’n Arddangosfa Cennin Pedr Treftadaeth, a gwneud ychydig o waith atgyweirio lawnt ar yr ardal laswelltog o’i chwmpas.

Buom hefyd yn gweithio gyda’r tîm tirlunio, yn ddiweddar, i blannu Gwely 18 (‘Gwely’r Ffrindiau’, sy’n wynebu’r hen lawnt werdd fowlio) a thu ôl iddo, Gwely 19 (Gwely’r Blodau Trilliw’) - plannwyd gyda chymorth grant gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.

Ffrindiau wrthi’n plannu mwy of blanhigion wrth ymyl y blodau tiwlip (plannwyd yno gennym ym Mis Rhagfyr 2020).

Yng nghanol mis Mai, roedd gennym dîm o 10 gwirfoddolwr yn gweithio’n galed yn y Parc, i ychwanegu stribed o 1000 o glychau’r gog brodorol ar ymylon deheuol a dwyreiniol y Beili Allanol – i greu sblash o flodau glas yno, erbyn Gwanwyn 2022.

Nesaf ar ein rhestr - byddwn yn ychwanegu mwy fyth o glychau’r gog a phlanhigion eraill i’r ardaloedd noeth sydd ar ôl ger Canolfan Bryn y Beili newydd, ac ychydig mwy o redynnau yn y ‘Dell’ (yr hen chwarel ar yr ochr orllewinol i’r Parc), ac yna dechrau’r gwaith cadwraeth ar y coedlannau, gan ystyried barn botanegydd Ymddiriedolwyr Natur Gogledd Cymru, a arolygodd fflora’r coedlannau’n go fanwl yn ddiweddar.

Os hoffech chi ymuno yn y gwaith o sbriwsio’r parc a / neu gynnal a chadw’r Gwelyau Blodau yn y blynyddoedd i ddod, wel, gallem wneud gydag ychydig o arddwyr brwd o hyn ymlaen, i’n helpu i edrych ar ôl i’r planhigion blannu ar draws y Parc yn ystod 2019-21. Hefyd bydd cyfle i wneud lawer o waith (ysgafn) cadwraeth yma ac acw yn y coedlannau, yn cynnwys edrych ar ôl y blychau nythu ychwanegwyd gan Ffrindiau. [Cyswllt: fobhmold@gmail.com] - Eira Hughes (Cadeirydd) - Ffrindiau Bryn y Beili

Talwrn y Beirdd

Bu tim Tegeingl, yn brysur iawn yn cyfansoddi a chystadlu yn yr ail rownd o'r ornest radio Talwrn y Beirdd yn erbyn tim y Gwenoliaid o Gaerdydd yn ddiweddar. Colli yn anffodus fu eu hanes ond braf yw cael rhannu gyda chi ychydig o gynnyrch yr ornest.

Trydargerdd (sef cerdd gaeth neu rydd sydd, fel un o negeseuon Twitter, heb fod dros 140 o nodau cyfrifiadurol): Nodyn mewn llyfr ymwelwyr
Tegeingl - Les Barker
Nodyn yn llyfr yr ymwelwyr, Pegwn y De, 1911.

Wel! Am eiriau bach hael:
"Mae tudalen dau ar gael..."
Gwir ddiolch: yr eiddot
yn ffyddlon (er amhrydlon)
Robert Falcon Scott.

Gwenoliaid - Hannah Roberts
"Wnaiff rhywun ddod i sgwennu
ynof yn ystod pla?
Just gwedwch rhywbeth wrthoi
os mae dim ond "Bore da"!

Cwpled caeth yn cynnwys y gair 'hawdd'
Tegeingl - Dafydd Morris

Hawdd i glawdd rhoi gwlad dan glo;
astrus yw'r gwaith dadrwystro.

Gwenoliaid - Huw Roberts

Daw rhagfarnau lleisiau'r llu
yn rhy hawdd â'u ceryddu.

Limrig yn cynnwys y llinell 'Y mae gen i reswm i gredu'
Tegeingl - Harri Bryn Jones

Y mae gen i reswm i gredu
Fod pobl y dre'n f'anwybyddu
Pan af lawr y stryd
Yn hapus fy mryd
Mae nhw yn un fflyd yn diflannu .

Gwenoliaid - Judith Musker Turner

Y mae gen i reswm i gredu
bod wyau fy ieir yn melysu
mae eu plisg yn batrymog
erbyn hyn maen nhw'n enwog
a Cadburys yn ceisio eu prynu.

Cywydd (heb fod dros 12 llinell): Sbwriel
Tegeingl - Dafydd Morris

Mae o hyd hen redddf am hel
i'n herwau di-ysbwriel.
Cŵn a brain yn cannu bro
yn esgyrn hyll, afrosgo –
eu chwalu, nes i'r chwilod
yn ddu, fel at gladdu, ddod,
i eillio o'r gweddillion
ryw faeth, o ddyfnder rhyw fôn.
Ein daear biau'r chwarae:
y pridd yw diwedd pob prae.
Is y sêr, dim gwastraff sy'
i weilch yr hen ailgylchu.

Gwenoliaid - Steffan Phillips

Yn y glaw safai'n dawel
wedi'r bas wnaeth ildio'r bêl;
un lac i lorio ei wlad.
Ym merw'r camgymeriad,
y trydar sy'n fyddarol;
yn un haid maent eto'n ôl.
Yn blentyn roedd hyn yn hwyl,
ond o'i asgell mae'n disgwyl
y trais o lu'r terasau,
yr herio hallt i barhau,
a'r sbwriel i hel o hyd
yn ei inbox yn enbyd.

Pennill (rhwng 4 ac 8 llinell) sy'n bathu gair Cymraeg newydd neu'n cynnig diffiniad newydd o air Cymraeg sy'n bodoli eisoes

Tegeingl - Les Barker

Mewn ardaloedd o'r Affrig anhysbys,
siaredir ein heniaith ysblennydd;
os soniant am "fynd dros ben estrys",
dyna'u mesur o ddyfnder afonydd.

Gwenoliaid - Steffan Phillips

Dwi'n gwisgo'n broffesiynol
i bob pyjarfod sydd,
Fy nghrys 'di smwddio, tei yn dwt,
a siaced ambell ddydd.
Ond dan y bwrdd dwi'n cwato
fy mhi-jeis Lerpwl i,
a chroesi popeth na fydd rhaid
'mi godi am bi-pi.

Cân ysgafn i ddau lais (heb fod dros 20 o linellau a heb fod yn soned): Y Dorf

Tegeingl - Les Barker

Tawelwch terasau ond sol-ffa o'r soffa,
ein pyncio o'r palmant, ein lleisiau o'r lolfa;
er bod pawb yn ynysig, mae'r wal goch mor bwysig;
ein torf delynegol, ein dyn ychwanegol,
yr unfed ar bymtheg, deuddegfed, faint bynnag,
gyda'n gilydd ar wahân, dros ein gwlad, Calon Lân;
canmol Adams a Sheedy, North a Navidi,
Willis Halaholo, ein Dan James a'i gôl o,
clywed Nic Parry'n sôn am Gareth a Harry;
mae'n rhaid gosod barrier rhwng emyn ac aria;

ein beirdd, ein cantorion, dau dîm llawn enwogion;
er bod ni'n eu caru, rhaid iddynt wasgaru;
lle mae hynt a helynt, bydd dwy lathen rhyngddynt
trwy'r pyncio o'r palmant a'r lleisiau o'r lolfa,
tawelwch terasau a sol-ffa o'r soffa.

Gwenoliaid - Huw Chiswell

Deuawd y glymblaid
Y fi yw Preisi / a fi yw Drêc
y cyfuniad gore rioed ers chips a sdêc.
Nid annibyniaeth yw fy sîn
ond ma hanner dy gefnogwyr yn gytun.
Ni'n ddau sosialydd, nawr dere mla'n,
mi withodd clymblaid rhyngom dro o'r bla'n –
cei fod yn Rhodri / ti, Ieuan Wyn?/
Gad fi feddwl bach am hynny, falle ddim.
Ma RT Davies yn codi'i lais -
falle clymblaid 'da Abolish / Plaid y Sais /
mae'n ddigon gwirion / ma' hynny'n ffaith
'dy e'n sylweddoli gallen oll fod ma's o waith?
Un achos pryder sydd gen i
a allai chwalu unrhyw fargen rhyngom ni –
pan ddaw hi'n fater o selio'r ddêl /
pu'n ohonom fydd â gofal Dafydd Êl?
Annibynieth / ffederaliaeth, gwir sosialaeth / gwir hunaniaeth /
pa wahaniaeth pa ddamcaniaeth? Dêl yw dêl.

Ateb llinell ar y pryd - Peri loes mae'r Siwpyr Lîg

Tegeingl
Peri loes mae'r siwpr lig
I dimau mewn pandemig

Gwenoliaid 0.5
Y barus sydd yn berig -
peri loes mae'r Super League.

Cerdd rydd (heb fod dros 18 llinell) yn seiliedig ar unrhyw rif

Tegeingl - Les Barker
Un;
un ac un ac un...
Mab, merch, dynes, dyn,
mae pob un yn unigolyn;
cawn ein geni, byddwn farw
fesul un.
Er gwaetha' Covid, rhyfel, newyn,
nebun nid yw'n ystadegyn,
neb yn rhif ond pawb yn rhywun;
annifyr, ofer, hyfryd, hallt,
hawddgar, styfnig, anodd dallt;
ciaidd, cynnes, oer neu arw;
cawn ein geni, byddwn farw
fesul un.

Gwenoliaid Judith Musker Turner
Saith deg (I fy nhad ar ein benblwydd 70 oed,)

Mewn stafell llawn broc dy fywyd,
rhannwn atgofion trwy niwl paneidiau a'r cof,
yn byseddu eu corneli
a'u shifflo fel hen luniau graeanog
yn eu cyfnewid nhw fel cerdiau chwarae.
Rwyt ti'n cynnig geranium coch
am arogl tost llosg a murmur radio'r gegin ar fore Sadwrn.
Cymeraf sedd lychlyd mewn rhyw steddfod fach
ac yn rhoi blas cân yr eurbinc yn fy nhro.
Rwy'n creu mosäig, yn casglu pob tamaid bach lliwgar
a cheisio eu gosod mewn patrwm,
i greu trefn a synnwyr a darlun mwy;
ond rwyt ti'n sgwennu symffoni,
a phob nodyn ein gorffennol yn toddi a thrawsffurfio
ac yn seinio o'r newydd, mor daer â chôr capel
ar ddydd Llun y Pasg.
Cynigiaf wenau dy ferched i ddenu dy dôn i gywair llon;
cynigi di dy gariad, sydd yn holl deilchion y gerdd hon.

Englyn: Priodas
Tegeingl - Dafydd Morris
(I'm nith, sy'n priodi eleni.)

Un ac un... un deuddyn... dau – wyt bellach
mewn llinach; mae'n lluniau'n
goffâd o'n dymuniadau
i chdi... sy'n awr yn "Chi'ch dau"!

Gwenoliaid - Judith Musker Turner
'Rôl i'r haul rolio i'r heli – uno
wna'r don â'r goleuni;
ond nid agos at nosi
yw nerth ein hymrwymiad ni.

LEWIS GLASS

BWCLE
Uned 11, Pinfold, Bwcle. CH7 3PL
Darparwn FFENESTRI, DRYSAU PVCu a GWAITH ARGYFWNG o safon uchel i'ch cartrefi a'ch busnes.
Ffôn: 01244 549449
E-bost: lewisglass549449@aol.com
www.lewisglassltd.co.uk
FENSA
GWASANAETH LLEOL GAN HOGIA LLEOL ERS 1982

Ysgol Maes Garmon

Llongyfarchiadau mawr i Elin a Gruff- enillwyr gwobr goffa Ann Richardson. Dyma'r ddau yn cael eu llongyfarch gan Mr Gethin Richardson. Llongyfarchiadau i Nel Blwyddyn 10 ar ennill lle yn Theatr Genedlaethol Prydain Fawr. Tipyn o gamp i ferch mor ifanc!

Nanw

Llongyfarchiadau mawr i Nanw Hampson am godi £630 i Hosbis Sant Cyndeyrn drwy werthu lluniau a chardiau o'i dyluniadau ardderchog. Mae'r darluniau wedi eu creu'n ddigidol gan ddefnyddio'r rhaglen Procreate ac mae'n arwyddocaol iawn bod enfys yn rhan o'i dyluniad cyntaf o sgwâr Rhuthun. Gyda'r enfys yn symbol o ymdrechion arwrol gweithwyr y GIC yn ystod y pandemig, roedd y dyluniad yma'n arbennig o berthnasol i Nanw ar ôl colli ei thaid Brian Morris (aelod ffyddlon o Gymdeithas Gorawl Yr Wyddgrug) ym mis Mai 2020.

Llogyfarfchiadau!

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Sarah Taylor sydd wedi ei dyrchafu i fod yn Faer Cyngor Tref Yr Wyddgrug ac hefyd

i'r Cynghorydd Haydn Jones (Ward Y Gogledd) am ddod yn Dirprwy Maer Y Dref. Mae Haydn yn siaradwr Cymraeg brwd ac yn sicrhau cyfartaledd a sylw teilwng i'r Gymraeg yng ngwaith y cyngor.

Ysgol Maes Garmon

Hysbyseb swyddi gwag

Mae angen llenwi 2 swydd wag ar gyfer 01.09.2021:

Cymhorthydd Mathemateg i weithio gyda disgyblion CA3 a CA4 i wella eu sgiliau Mathemategol. (graddfa gyflog Statws Sengl Sir y Fflint 1.3)

Cymhorthydd dosbarth i gefnogi disgyblion unigol mewn dosbarthiadau. (Graddfa gyflog Statws Sengl Sir y Fflint 1.2)
Telerau'r swyddi : 27.5 awr yr wythnos
: cytundeb amser tymor yn unig
Cynigir y swyddi ar gytundeb blwyddyn neu yn barhaol.

Gall fod yn gyfle arbennig i unigolyn sydd yn meddwl hyfforddi fel athro yn y dyfodol neu yn gyfle i ddechrau gyrfa yn cefnogi disgyblion i wireddu eu potential.

Dyddiad cau'r 2 swydd: 16.06.21
Dylid ffonio'r ysgol am ragor o fanylion neu edrych ar wefan eteach.

Parchedig J Bryn Jones

Anodd yw meddwl am Bryn heb gysylltu enw Vera, ei wraig ffyddlon a chefnogol yn ei holl waith a'i ddiddordebau.

Daethom ni i'r Wyddgrug yn 1966, heb adnabod neb yn y dref. Gan mai'r bwriad oedd sicrhau addysg Gymraeg i'n plant, buan iawn daeth cysylltiadau wrth gatiau'r ysgol a'r Capel. Trwy hyn, daethom yn aelodau o gymdeithasau'r dref ac ehangu'n cylch o gyfeillion. Yn ystod yr wythnosau cynnar, cefais gyfle I fynychu cyfarfod Cangen Plaid Cymru a chael croeso gan griw gweithgar a chynnes, yn cynnwys Bryn a Vera Jones. Wrth ymsefydlu, cawsom gwrdd â Bryn a Vera ym mhob un cymdeithas - arwydd o ehangder diddordeb y ddau a'u hagosatrwydd.

Yr oedd Bryn yn Weinidog ar Gapel Pendref a'i wasanaeth i'w aelodau yn glodwiw. Yr oedd ei bregethu yn wefreiddiol ac yn cael ei rhannu gyda'r Capeli eraill ar Suliau cyd-enwadol. Nid oedd ei swydd yn ei gadw'n gul, o bell ffordd. Yr oedd yn barod i ymlacio ymysg ei gyfeillion gan fwynhau achlysuron cymdeithasol cystal â'r cyfarfodydd mwy ffurfiol. Ar ben hyn, yr oedd yn mynnu bod yn weithgar heb ddisgwyl I bobl eraill gwneud y gwaith ac yntau yn gwylio o'r ochr.

Ar adeg etholiad, yr oedd Bryn yr un mor awyddus I ledaenu neges y Blaid a phawb arall o'r Gangen. Pleser mawr oedd cyd-ymgyrchu gyda Bryn o gwmpas y dref ac, yna, trwy'r ardaloedd cefn gwlad, gan rannu taith car a'r cyfle i ymgomio a rhannu profiadau. Yn hyn o beth, fel popeth arall, yr oedd Bryn wedi llwyr ymroi i'r dasg.

Yr oedd dawn ac ymroddiad Bryn, a Vera, i'w gweld mewn sawl achos newydd yn y cylch. Yr oeddent wrthi yn sefydlu Papur Fama a Siop y Siswrn, gyda Bryn yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Wil Bryan, a Vera yn aelod hapus Cwmni'r Dreflan, y cwmni drama oedd yn cael y fath hwyl ac afiaith fel yr oedd y cynulleidfaol yn galana chwerthin. Ym mhob dim, naill ai yr oedd y ddau yn aelodau gweithgar, neu un yn aelod a'r llall yn gefnogol - cwpl oedd yn cyfranu'n llwyr i'w gwahanol diddordebau.

Fel Cymry glan, yr oeddynt yn hoffi canu a'r ddau yn aelodau o Gantorion Glan Alun, gan fynychu'r ymarferion yn gyson a mwynhau cynnal cyngherddau yn y dref a'r ardal.

Daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i'r cylch droeon ac yr oedd Bryn a Vera wrthi yn pwyllgora wrth baratoi am yr achlysur tra, ar hyd wythnos yr Eisteddfod, y buasai'r ddau wrthi yn gwasanaethu ar y Maes neu'r maes parcio. Yr oeddynt yn ddi-flino yn cefnogi "Y Pethau".

Trist nodi bod tysteb i Vera wedi ymddangos yn rhifyn Ebrill/Mai o Bapur Fama ond cawn lawenhau bod Bryn a Vera, trwy'r ffydd oedd yn eu cynnal ar hyd eu bywydau, wedi cyfarfod eto y tu draw i'r llen. Gobeithiwn y bydd hwn yn gysur a chymorth i'r teulu a'r rhai sy'n galaru.

Cyril Golding
Y Parchedig J. Bryn Jones

Bu'r Parch Bryn Jones yn gwasanaethu fel Ysgrifennydd Pwyllgor Ystafell Goffa Daniel Owen am tua pum mlynedd a'r hugain. Ar adeg tyngedfenol llwyddwyd i gasglu creiriau cysylltiedig a Daniel Owen ac agorwyd yr Ystafell Goffa ym 1973. Mae dwy ystafell o fewn Amgueddfa'r Wyddgrug bellach yn arddangos golygfeydd o weithdy'r teiliwr a phrysurdeb gwaith o ddydd i ddydd a'r parlwr lle byddai Daniel Owen yn ysgrifennu ei nofelau pan gai hamdden. Bu Pwyllgor yr Ystafell Goffa hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi cyfres o ddarlithoedd coffa. Erbyn hyn cynhelir Darlith Goffa Daniel Owen fel rhan ganolog o Ŵyl Daniel Owen gyda nawdd Cymdeithas Wil Bryan. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Parch Bryn Jones am ei ymroddiad i gynnal y gwerthoedd Cymreig yn ardal yr Wyddgrug.

Nia a Kevin, Pwyllgor Gŵyl Daniel Owen

Y Parchedig J. Bryn Jones
Gyda thristwch fe ddaeth y newyddion am farwolaeth Y Parchedig J. Bryn Jones ar Fai yr 20fed. Yn dawel yn ysbyty Maelor, bu farw Bryn o 'Gwalia', Yr Wyddgrug. Priod ffyddlon y diweddar Mrs. Vera Jones a bu farw yn mis Mawrth eleni.
Fe ddaeth Bryn, gyda'i deulu, i fyw i'r Wyddgrug yng nghanol y 1960au – dros drigain mlynedd yn nôl. Fe gydiodd yn ei ddyletswyddau prysur fel Gweinidog y Wesleaid yng Nghapel Pendref, nes iddo ymddeol. Am bedwar degawd bu Bryn yn arweinydd ynghanol y 'pethe' yma yn Sir y Fflint. Bu'n Gadeirydd Papur Fama am gyfnod hir ac yn gyfranwr brwd am flynyddoedd maith. Roedd o'n aelod gweithgar gyda Phlaid Cymru yn lleol ac yn rhanbarthol. Bu'n dal swyddi prysur a gwirfoddol o fewn y Blaid gan weithio'n ddygn, yn yr ardal yn y 1990au, wrth baratoi ac ymgyrchu dros Gynulliad i Gymru. Roedd Bryn yn ddarllenydd brwd ac yn aelod o Gantorion Glan Alun. Roedd cartref agored gan Bryn a Vera pob tro wrth groesawu pobl i'w haelwyd – i gyfarfod ffurfiol neu ar achlysur 'codi pres' at elusen haeddianol. Derbyniodd Bryn a Vera Tarian Coffa Jennie Eirian yn 1988 am eu gwaith diflino a'u hymroddiad i'r Gymdeithas Gymraeg ac i'r gymuned ehangach yma yn Sir y Fflint. Bu Bryn yn dad ofalgar dros Tudur, Deiniol, Nia ac Angharad, tad-yng-nghyfraith caredig i Linda, Sioned a Mike, taid cariadus Gwennol a Gareth, Hedd a Nadine, Guto, Dion a Meilyr, hen daid annwyl i Gruffudd, Pwyll, Ynyr a Macsen. Cydymdeimlwn yn fawr efo'r teulu oll yn eu galar.

Frank Egan

Symudodd Frank ynghyd a'i deulu, Linda ei wraig a'r tri o blant i fyw yn yr Wyddgrug yn 1986 . Gweithio i gwmni Shell yn Amlwch oedd Frank cyn hynny, a phan gaeodd y gwaith yno bu'n rhaid symud I weithio yn Ellsmere Port. Tra'n chwilio am dy yn yr ardal digwyddodd daro ar Mervyn Jones, hen ffrind Ysgol iddo, a ddywedodd wrtho fod ty ar werth yn Gelli Dywod yn yr Wyddgrug, a dyna sut y daeth Frank, ei wraig Linda a'r plant Kevin, Iwan a Llinos i fyw yn ein plith.
Gweithiai Frank shifftiau hir yn Ellsmere Port, ac yn aml roedden ni'n siarsio'r plant i fod yn dawel rhag deffro Yncl Frank, ond wedyn byddem yn clywed, yn enwedig ar ddyddiau braf o haf ganeuon Dafydd Iwan a seiniau o wlad Groeg yn chwarae'n uchel o ddrws nesaf.
Prin y gallai neb gael cymydog mor groesawgar a Frank, roedd wrth ei fodd yn gwahodd ffrindiau draw, a chafwyd sawl parti bythgofiadwy yno. Byddai llond crat o ganiau cwrw yn cadw'n oer wrth y drws a byddai un yn eich llaw

cyn cael cyfle i dynnu côt. Bore Nadolig byddai'n gwahodd pawb o'i stryd a Ffordd Hengoed draw am lymaid, ac roedden ni gyd yn gwerthfawrogi y cyfle o weld rhai o anrhegion y plant a'r oedolion. Er rhaid cyfaddef bod rhai ohonnom yn gadael yn eithaf simsan am ein cinio Nadolig.
Wedi ymddeol o Shell fe'i penodwyd yn ofalwr Ysgol Glanrafon, ac yno hefyd bu'n fawr ei ofal o'r ysgol. Doedd dim yn ormod o drafferth ganddo a byddai'n troi law gyhyrog at bob tasg.
Wedi ymddeol o Ysgol Glanrafon, ac yntau bellach yn daid hiraethai am ddychwelyd i Gemaes ac i Ynys Môn, ac felly a fu saith mlynedd yn ôl. Rhaid deweud ein bod yn gweld ei golled, ac roedd clywed am ei farwolaeth sydyn yn ergyd i'n cymdogaeth. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda Linda a'r teulu oll.

Nerys Jones

Daeth tristwch mawr dros ardal Yr Wyddgrug ar fore Sadwrn Chwefror 13 pan glywsom am farwolaeth sydyn Nerys Jones. Roedd ei cholli mor sydyn yn anodd i'w gredu, ac na fyddwn yn gallu ei gweld, na mwynhau ei chwmni fyth eto. Ergyd galed iawn.
Fel cymdoges i ni ym Mharc yr Hafod y cyfarfûm â Nerys gyntaf, pae ddaeth hi a'i chyn-ŵr i fyw i un o'r ddau dŷ plismon oedd drws nesaf i ni. Yn syth gwelwn ei bod yn berson annwyl, diffuant iawn oedd yn gweld y da ym mhawb. Ar ôl cyfnod byr, fe symudodd i dŷ yn Cael Del ac oddi yno i Gilcain. Erbyn hyn rodd Ffion, ei hunig blentyn, wedi ei geni ac yn llenwi ei bywyd. Mor falch oedd Nerys ohoni bob amser.
Yn ffodus i mi fe gefais ail gyfarfod gyda Nerys pan ddaeth i weithio ataf i'r adran anghenion addysgol ychwanegol yn Ysgol Glanrafon. Roedd petai wedi ei gwneud i'r swydd honno, gan fod ganddi barch mawr at y disgyblion ac roedd yn eu deall a'u caru i gyd. Roedd ganddi ddiddordeb ym mhob un, ac fel canlyniad roeddent hwythau yn ymateb iddi hi ac yn rhoi eu ffydd ynddi. Ni chlywais Nerys yn dweud gair drwg am neb o'r plant na neb o staff yr ysgol. Gwneud ei gorau i bawb oedd nod Nerys a hynny mewn ffordd dawel a diymhongar. Pan agorodd yr uned yn Glanrafon Nerys oedd un o'r gweinyddesau cyntaf yno, ac unwaith eto gweithiau yn galed i roi o'i gorau i'r disgyblion a pharch wastad ganddi at yr athrawon oedd yn gweithio yno.
Byddai yn gweithio gyda'r plant yn ystod amser cinio yn ogystal, ac hefyd yn y clwb ar ôl ysgol. Roedd ei diwrnod gwaith yn llawn a phrysur.
Ychydig flynyddoedd yn ôl symudodd o Gilcain i fyw wrth ymyl yr ysgol. Nid oedd rhaid iddi ddefnyddio'r car i deithio i'r gwaith, ac roedd yn hapus yn byw unwaith eto yn Yr Wyddgrug.
Roedd ganddi gylch da o ffrindiau ac ymunodd a gwahanol gymdeithasau. Gyda rhai o'i ffrindiau roedd yn mwynhau cerdded, nofio a chael ambell bryd bwyd allan yn eu cwmni.
Ei hapusrwydd mwyaf yn ddiweddar oedd cael dod yn nain. Ganwyd Alys, merch fach i Ffion a Tom, yn Derby. Roedd Nerys ar ben ei digon, ond yn anffodus, oherwydd y Covid ni chafodd fynd i Derby i weld ei hwyres fach. Unwaith eto roedd natur hawddgar Nerys yn derbyn y sefyllfa er yn dyheu am gael mynd i weld y teulu bach. Chafodd hi ddim cyfarfod Alys.
Cafodd ei chymryd yn llawer rhy gynnar oddi wrthym ac mae'r hiraeth yn fawr amdani. Cydymdeimlwn â'i mam, ei brodyr, ac yn arbennig Ffion, yn eu colled sydyn a thrist. Gwraig arbennig oedd Nerys, pleser oedd ei hadnabod a'i galw yn ffrind. Roedd wedi byw bywyd da, ac wedi rhoi gymaint o'i hamser i roi hyder a hapusrwydd i'r disgyblion yn ei gofal. Person da ymhob ystyr y gair. Bydd colled mawr ar ei hôl.

Magi Roberts

Lucille Ingman M.B.E

Bronallt Coedllai.
Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth sydyn Lucille, ond yn dawel, yn ei chartref yng Nghoedllai ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Mae nifer fawr ohonom wedi colli hen gyfaill annwyl a theyrngar. Roedd Lucille yn perthyn i un o hen deuluoedd Dyffryn Alun a'i gwreiddiau yn ddwfn ym mro ei mebyd ac yn wastad yn ymfalchio yn y gwreiddiau hyn.
Roedd gyda fi, fel amryw eraill yn y fro, barch mawr i Lucille a Glanfab ei diweddar ŵr.
Ar hyd y blynyddoedd mae cyfraniad Lucille i achosion da yn Nghoedllai wedi bod yn amrhisiadwy, cyfraniad a gafodd ei nodi a'i werthfawrogi pan gafodd ei gwobrwyo gyda M.B.E. am ei chyfraniad i fywyd cyhoeddus yn ei chymdeithas.
I Lucille mae'r diolch am sefydlu y papur misol Newyddion Coedllai, yn wir, hi oedd yr ysgrifennydd cyntaf. Dan nawdd Newyddion Coedllai a dyfalbarhad Lucille wrth godi arian mae na Gofeb yn y pentref i'r milwyr a aberthodd eu bywydau yn y ddau Rhyfel Byd. Hi hefyd oedd golygydd y Llyfr "Leeswood Past and Present". Roedd Cymdeithas y Merched, Pwyllgor Apêl Hosbis Ty'r Eos, Canolfan Gymdeithasol y pentref, ei hannwyl Gapel Cedron heb anghofio'r pwyllgorau bywiog a gawsom i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol, yn rhan o fywyd beunyddiol Lucille.
Yng nghlwm â'i chyfraniadau amrhisiadwy i fywyd y pentref roedd gan Lucille bersonoliaeth afieithus a synnwyr o ddigrifwch. Roedd y ddawn ganddi i sefydlu perthynas o'r ieuengaf i'r hynaf o dan unrhyw achlysur. Roedd ganddi gymeriad oedd yn apelio yn gyffredinol at bawb, yn un o'r rhai oedd yn gwneud profiad bywyd yn gyfoethocach o'i hadnabod.
Roedd yn athrawes brofiadol a chydwybodol, fel yng ngeiriau Arthur Wood – "mae athro da yn egluro, mae athro uwchraddol yn arddangos ond mae athro gwych yn ysbrydoli". Mae Lucille ar hyd ei gyrfa fel athrawes wedi ysbrydoli to ar ôl to o blant yn Nhreuddyn a Nercwys.
Roedd y ddawn ganddi i gadw plant yng nghledr ei llaw wrth adrodd storiau am ei phlentyndod yng Nghoedllai – a roedd ei gwybodaeth am Goedllai a'i phobl ar flaenau ei bysedd, fel yng ngeiriau Dafydd Iwan yn Esgair Llyn, roedd "ei thraed yn dilyn llwybrau hen y tir, a mi welaf luniau ddoe ar hyd y lle, a mi glywaf dynfa'r gwreiddiau dan fy nhraed"
Lucille fach annwyl, ar hyd y blynyddoedd rwyt wedi cyffwrdd calonnau llawer ohonom a rydym yn diolch i Dduw am y fraint, pleser a'r anrhydedd o dy adnabod.
Doug Jones

P&A

Wedi'u hysbrydoli gan lwyddian nau codi arian rhyfeddol y diweddar Capten Syr Tom Moore, mae ein staff canolfan arddio P&A yn cymryd rhan mewn her elusennol o redeg a cherdded am 24 awr ddiwedd mis Mehefin er budd Cymorth Canser Macmillan. Maent yn gobeithio codi o leiaf £ 8,000 - felly byddai unrhyw gefnogaeth neu nawdd yn cael ei werthfawrogi'n fawr!

LLEWELLYN-JONES
SOLICITORS > CYFREITHWYR

GWASANAETHAU CYFREITHIOL
- TRAWSGLUDO PRESWYL A MASNACHOL
  Gwerthiannau, Pryniannau, Ailforgeisi, Morgeisi Prynu er mwyn Gosod, Pecynnau Gwybodaeth am y Cartref, Pecynnau Arwerthiant
- LANDLORD A THENANT
  Prydlesi Masnachol a Gosodiadau Preswyl
- AMAETHYDDOL AC YSTADAU
- EWYLLYSIAU / PROFIANT AC YMDDIRIEDAU / PŴER ATWRNAI / LLYS AMDDIFFYN
- PRIODASOL
  Materion Ysgaru / Gwahanu / Partneriaethau Sifil
  Anghydfodau Cydfyw / Materion Ariannol
  Trais yn y Cartref (Gwaharddebion) / Aflonyddwch
  Rydym yn Aelod o'r Panel Cyfraith Teulu a Resolution a gallwn gynnig dull cydweithredadol o ymdrin â datrys anghydfod
- PLANT
  Preswylio / Cyswllt / Achosion Gofal / Cyfrifoldeb Rhieni
- GWAITH AMDDIFFYN TROSEDDOL
- CYFREITHA SIFIL
  Anafiadau Damweiniau a Phersonol, Anghydfodau Sifil, Adennill Dyledion
- GWAITH ASIANTAETHOL
  Troseddol a Sifil
- TRWYDDEDU GWIRODYDD
- Ymwneliadau cartref trwy drefniadau ymlaen llaw

Os na allwn gynnig y gwasanaeth y mae arnoch ei angen, byddwn wastad yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â chwmni arbenigol, ag enw da iddo, sydd cyn agosed i'ch cartref ag y bo modd

YR WYDDGRUG
Ty Victoria
Stryd Grosvenor
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1EJ
01352 755305
01352 755487
post@llew-jones.co.uk

RHUTHUN
Siambrau Banc Barclays
Stryd Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1HW
01824 704495
01824 702535
post@llew-jones/ruthun.co.uk

Sawl Maen sydd mewn Cylch?

Ar yr olwg gyntaf, mae'r cwestiwn uchod i'w weld yr un mor ddi-synnwyr â hwnnw am hyd darn o linyn. Ond o feddwl amdano mewn perthynas â'r cylch o feini tal ar Fryn y Beili, Yr Wyddgrug daw ei ystyr y glir, gobeithio. Fel y gŵyr darllenwyr Papur Fama, codwyd y meini – deuddeg ohonyn nhw – ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1923, a'r Archdderwydd Dyfed yn llywio gweithgareddau Gorsedd y Beirdd o'r Maen Llog yn y canol. Dyna ateb y cwestiwn ar ei ben?

Nage, a bod yn fanwl-gywir. Yn ddiweddar, cefais gwestiwn gan David Rowe, awdur sawl llyfr hanes lleol, cyd-aelod â mi yng Nghymdeithas Ddinesig Yr Wyddgrug ac un a fu'n drysorydd ac archifydd iddi: beth oedd diben y ddau faen sy'n sefyll y tu allan i'r cylch tua'r dwyrain? Doeddwn i ddim yn gwybod. Ond roeddwn i wedi cael copi o adroddiad ar Eisteddfod Fawr Llangollen 1858 yn y chwaterolyn The Cambrian Journal gan Hedd ap Emlyn, fy hen gyd-weithiwr yn Llyfrgell y Sir. Roedd ynddo ddisgrifiad o'r cylch meini a godwyd ar ei chyfer. Ei brif gynnwys oedd deuddeg o feini yn sefyll ar eu pennau i gynrychioli symbolau'r zodiac gyda'r Maen Llog yn y canol (yn union fel sydd ar Fryn y Beili).

Heuldro a Chyhydnos

Y tu allan i'r cylch a thua'r dwyrain roedd tri maen arall, mewn safleodd a olygai fod llinellau dychmygol o'r Maen

Llog at bob un yn anelu am godiad yr haul ar adegau neilltuol o'r flwyddyn: Heuldro'r Gaeaf, tua 21 Rhagfyr (pan fydd y dydd yn hemisffêr y gogledd ar ei fyrraf) neu Heuldro'r Haf, tua 21 Mehefin (pan fydd ar ei hwyaf) neu un o'r ddau gyhydnos, sef Cyhydnos y Gwanwyn, tua 20 Mawrth a Chyhydnos yr Hydref, tua 22 Medi (pan fydd y dydd a'r nos yr un hyd ymhobman). Ar Heuldro'r Gaeaf byddai'r haul yn codi y tu ôl i'r maen mwyaf deheuol o'r tri. Ar Heuldro'r Haf: y tu ôl i'r un mwyaf gogleddol. Ac ar y ddau gyhydnos: y tu ôl i'r un canol.

Er na ddechreuodd y gyfres o eisteddfodau cenedlaethol blynyddol tan un Aberdâr yn1861, mae lle anrhydeddus i ŵyl 1858 yn y traddodiad am resymau amgenach na Chylch yr Orsedd. Honnodd y Cambrian Journal iddi fod 'on a scale worthy of a
national event'; ymddangosodd aelodau'r Orsedd mewn gwisgoedd gwyn, glas a gwyrdd; traddodwyd y weddi 'Dyro, Dduw, dy nawdd …'; gweiniwyd llafn y cledd ar y Maen Llog (yn hytrach nag yn nwylo cyhyrog Robin McBride neu'r diweddar Grav) a chyflwynwyd cadair yn wobr am awdl (y pwnc oedd Brwydr Bosworth, 'by which the Cymry recovered the monarchy of the Isle of Britain').

Eisteddfodau 1904 a 1950

Daw'r sgets o'r Cylch yr Orsedd a godwyd ar dwyni tywod Y Rhyl ar gyfer Eisteddfod 1904 o'r rhaglen swyddogol, Mae'n dangos bod tri maen yn sefyll y tu allan, fel yn Llangollen. Ond mae'n ymddangos bod y ddau faen y tu allan i gylch Bryn y Beili yn cynrychioli ymgais i dalu o leiaf rhyw gymaint o wrogaeth i'r traddodiad. Felly y bu hi mewn mannau eraill am flynyddoedd, mae'n debyg, oherwydd dau faen sydd y tu allan i gylch Eisteddfod Genedlaethol Caerffili 1950. Roeddwn i yno.

ON: Roedd Cyhydnod yr Hydref ar ddydd Iau, 23 Medi yn 1858, ynghanol eisteddfod a barhaodd am bedwar diwrnod. Ond does dim sôn yn y Cambrian Journal am neb oedd yn gysylltiedig â'r ŵyl ar eu traed yn ddigon cynnar i wylio'r haul yn codi y diwrnod hwnnw! Alban Elfed yw'r enw traddodiadol yn Gymraeg ar y cyhydnos hwnnw.

Cymdeithas Waldo Hongian dail 'Dail Pren'

Mae Cymdeithas Waldo yn annog gosod llinell o waith Waldo Williams ar label a'i hongian fel deilen ar goeden ar Fai'r 20. Ar y dyddiad hwnnw 50 mlynedd nôl y bu farw'r bardd a'r heddychwr o Sir Benfro. Cyhoeddodd un gyfrol o farddoniaeth a'i galw yn 'Dail Pren'. Dyna pam yr anogir gosod label yn cynnwys llinell o'i waith fel deilen ar goeden i gofio amdano.

Cyhoeddodd gyfrol o gerddi i blant hefyd ar y cyd ag E. Llwyd Williams, 'Cerddi'r Plant'. Dyna pam yr anogir disgyblion ysgol cynradd i ddewis eu hoff linell o blith y cerddi hynny i'w hongian fel dail.

Dywedodd Eirian Wyn Lewis, Cadeirydd Cymdeithas Waldo, " fod llawer wedi'i drefnu eisoes eleni i gofnodi ei farwolaeth hanner can mlynedd nôl yn 1971 ac fe fydd y dail symbolaidd hyn yn ein dwyn yn nes at y syniadau sydd yn ei gerddi. Ma' cymaint o linellau y gellir eu dewis sy'n drymlwythog o ystyr".

Eisoes mae mwy o gyfrolau wedi'u hysgrifennu am Waldo na bron yr un bardd Cymraeg arall. Geiriau clo Alan Llwyd yn ei gofiant iddo, wrth nodi ei farwolaeth, oedd " Roedd enaid Waldo, bellach, yn un â'r goleuni". Ac yn ôl Emyr Llywelyn "roedd hi wedi cymryd dwy fil o flynyddoedd o wareiddiad Cymraeg i greu dyn fel Waldo".

Anogir caredigion llên ac edmygwyr Waldo ledled y wlad i gymryd rhan yn y dathliad hwn o fywyd Waldo ar Fai'r 20fed. Rhagwelir y bydd amrywiaeth eang o'i linellau wedi'u gosod ar labeli yn cyhwfan yn y gwynt ar goed ar draws Cymru.

Sefydlwyd Cymdeithas Waldo yn 2009 er mwyn hyrwyddo gwybodaeth am Waldo Williams. Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan www.waldowilliams.com Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â naill ai Anna Williams anna.williams2047@gmail.com neu Hefin Wyn hefinwyn367@btinternet.com

D.S.

Un o feirdd mwyaf Cymru'r ugeinfed ganrif oedd Waldo Williams (1904 – 1971). Roedd hefyd yn heddychwr, yn Gryn-wr ac yn genedlaetholwr o argyhoeddiad. Cafodd ei eni yn Hwlffordd. Dysgodd Gymraeg pan symudodd y teulu i Fynachlog-ddu yng ngogledd Sir Benfro yn 1911 lle roedd ei dad yn brifathro'r ysgol gynradd. Roedd yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yr oedd yn teimlo mor gryf yn erbyn Rhyfel Corea nes iddo wrthod talu'r dreth incwm. Fe'i carcharwyd ar ddau achlysur oherwydd ei ddaliadau heddwch. Codwyd carreg goffa iddo ar y comin ger Mynachlog-ddu.

Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint yn clodfori Gwirfoddolwyr Ifanc mewn digwyddiad gwobrwyo rhithiol

Cafodd pedwar person ifanc o Sir y Fflint eu clodfori am eu gwaith gwirfoddol mewn seremoni wobrwyo rithiol lle'r oedd Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cynghorydd Marion Bateman yn bresennol.

Bu i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) gynnal y digwyddiad er mwyn cyflwyno pedair Gwobr Tom Jones am Gyfraniad Eithriadol i Wirfoddoli yn Sir y Fflint yn ystod 2020.

Mae FLVC yn cefnogi gweithredu cymunedol ledled y sir a phob blwyddyn maen nhw'n cyflwyno gwobr yn cydnabod cyfraniad gwirfoddolwr rhwng 14 a 25 oed. Mae'r wobr er teyrnged i'r diweddar Tom Jones OBE, Cynghorydd Cymuned a Sir y Fflint am flynyddoedd maith, Llywodraethwr Ysgol ynghyd ag Ymddiriedolwr Sefydlu FLVC a fu farw yn 2016.

Yn dilyn heriau 2020, bu inni benderfynu bod pedwar enwebiad yr un mor deilwng â'i gilydd ac o ganlyniad bu inni gyflwyno pedair gwobr yn lle un y tro hwn.

Bu i'r digwyddiad dathlu ddwyn ynghyd enillwyr y wobr, eu ffrindiau a'u teuluoedd, a chynrychiolwyr y mudiadau wnaeth gyflwyno enwebiadau buddugol. Bu i'r Cynghorydd Marion Bateman, Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, estyn diolch i'r enillwyr ifanc am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r trigolion a'r ardal. Bu i Ann Woods, Prif Swyddog FLVC a Paul Hinchcliffe, Cadeirydd Bwrdd FLVC gymeradwyo'r enillwyr hefyd a chlodfori'r mudiadau wnaeth eu henwebu am groesawu a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc.

Dyma'r enillwyr teilwng:

Adam Bakewell, wedi'i enwebu gan Gyngor Cymuned Penyffordd am gyfraniad cadarnhaol tuag at sawl agwedd yn y pentref. Bu i Adam gyflawni rôl Cynrychiolydd Ieuenctid ar y cyngor, bu iddo gasglu barnau'r trigolion ifanc y pentref ynghylch parciau a darpariaeth chwarae ac roedd yn rhan annatod o gynllun plannu coed. Mae Adam hefyd yn arweinydd ar Grŵp Sgowtiaid hefyd. Yn y digwyddiad dathlu, soniodd y Cynghorydd Ransome bod Adam wedi "gweithio y tu hwnt i'r galw yn ystod y pandemig gyda gwen ar ei wyneb bob amser," i ddanfon nwyddau i bentrefwyr hŷn.

Cafodd Chloe Hellen ei henwebu gan Tracey Sankey-Jones o Wasanaeth Ambiwlans Sant Ioan (SJA) Glannau Dyfrdwy, a ddywedodd yn ystod y digwyddiad "Mae Chloe yn fy rhyfeddu o hyd; mae hi wir yn poeni am y bobl ac yn meddu ar yr holl rinweddau priodol ar gyfer gweithio i Ambiwlans Sant Ioan." Bu i Cadet Chloe ddod a gwen i wyneb trigolion yr ardal drwy goginio a danfon pitsas iddyn nhw. Fe addurnodd blychau'r pitsas â llaw gan ysgrifennu negeseuon "Cadwch yn ddiogel" arnyn nhw ac fe gyfrannodd unrhyw roddion at ei huned SJA. Bu i Chloe hefyd godi arian ar gyfer yr uned drwy ddylunio, creu a

gwerthu mygydau gyda'r logo SJA arnyn nhw. Mae hyn y tu hwnt i weithgareddau y mae Chloe yn ymgymryd â nhw fel cadet, gan gynnwys treulio Noswyl y Nadolig yn dosbarthu anrhegion i gleifion yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy a helpu gyda chasgliadau'r banc bwyd.

Thomas Leigh ydy aelod ieuengaf y tîm gwirfoddoli yn Siop Elusen Tŷ Nightingale Yr Wyddgrug ac fe benderfynodd ei reolwr, Sharon Newell, ei enwebu. Gan drafod Tom yn y digwyddiad, fe ddywedodd Sharon "Mae'n un o filiwn ac yn boblogaidd iawn ymysg y gwirfoddolwyr eraill, y staff a chwsmeriaid. Fe ofynnodd pe bai'n gallu cychwyn gwirfoddoli gyda ni er mwyn ennill Gwobr Dug Caeredin ond fe benderfynodd dal ati i wirfoddoli gyda ni wedi hynny. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf bu'n cyflawni sifft fore Sadwrn ar ein rota gwirfoddolwyr."

Mae Jack Wilson yn gwirfoddoli ar ran sawl prosiect gan Kim Inspire, ac fe gafodd ei henwebu gan Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid yr elusen, Rachel Sumner.

Dywedodd Rachel "Rydym yn lwcus dros ben o gael Jack fel aelod o'n tîm gwirfoddoli. Un o'r manteision yn sgil y cloi mawr a gorfod symud ein gwasanaeth ar-lein ydy bod modd i Jack barhau gyda ni fel gwirfoddolwr er ei bod hi wedi gadael yr ardal i fynd i Brifysgol yn Leeds." Bu i Jack gynnig gwirfoddoli ar ei chais i'r brifysgol ond mae hi'n parhau i roi o'i hamser gyda'r elusen, gan gefnogi grwpiau

llesiant a chymdeithasol, cynnal sesiynau ymwybyddiaeth a helpu yng nghaffi'r elusen yn Llys y Goron Yr Wyddgrug. Dywedodd Ann Woods, Prif Swyddog FLVC "Roedd yn fraint gen i gynnal y digwyddiad hwn. Roedd pawb wnaeth fynychu yn hynod falch ac roedd yn fendigedig gweld cymaint o bobl yn gwenu. Mae gwahaniaeth cadarnhaol ein henillwyr yn anhygoel ac mae'n amlwg felly bod y mudiadau enwebu yn gefnogol iawn o wirfoddoli ieuenctid ac yn cynnig profiad gwirfoddoli gwych. Rydw i'n edrych ymlaen at lansio enwebiadau ar gyfer Gwobr Tom Jones 2021 yn nes ymlaen eleni."

'Does unman yn debyg i gartref'

'Does unman yn debyg i gartref', sef, yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, 'Y man lle bo dyn a'i deulu yn arfer byw, trigfan, preswylfa'. Dros gyfnod y pandemig, yr ydym wedi treulio mwy o amser nag arfer yn ein cartrefi wrth geisio gwneud ein rhan i rwystro lledaeniad y firws Covid-19. Fel arfer, ein cartref yw'r lle yr ydym yn dychwelyd iddo i ymlacio ar ôl diwrnod o waith, ond oherwydd y gwaharddiadau, mae ein cartrefi yn awr hefyd yn weithle, gyda nifer ohonom wedi creu swyddfa fach ar fwrdd y gegin, neu yng nghornel ystafell arall. Tipyn o newid byd, gyda'r llinellau rhwng gwaith a chartref wedi pylu. Serch hyn, ein cartrefi yw ein noddfa (lle sy'n rhoddi cysgod neu amddiffyniad), ac maent o bob maint a chynllun.

Efallai mai maenordy (tŷ arglwydd y faenor), plas, bwthyn, byngalo, hendy (hen dŷ neu blasty) fflat, neu hyd yn oed tŷ â tho o gawn neu wellt crin, sef crindy, yw eich trigias (trigfan, preswylfa). Ond gobeithio bod modd i chi fudo (symud tŷ) os mai briwdy (tŷ drylliedig), cwthwal (hofel), lluest (trigfan dros dro wedi ei chodi ar frys), magwyren (adfail) neu furddun (adeilad wedi mynd a'i ben iddo) yw eich edrydd (cartref). Mae pawb yn haeddu adlam (trigfan sefydlog), petai'n faesty (tŷ yn y wlad), neu ddinasty (tŷ yn y dref), ac os ydych am godi tŷ newydd, gwnewch yn siŵr nad yw'n hogl (adeilad chwithig ei gynllun) nag yn dŷ trafaelus (a llawer o waith cerdded ynddo), a bod iddo ddrws ffrynt pwrpasol, nid berddor (drws allanol isel). Bydd angen digon o le tan y gronglwyd (yn y tŷ) ar gyfer pawb sydd am gytya (cyd-fyw) ynddo - fyddai'n annifyr gorfod didyo (troi allan o dŷ) aelod o'r teulu! Gobeithio eich bod wedi eich difyrru gan yr enwau llai adnabyddus, ac os ydych am ddarganfod rhagor amdanynt, cymerwch olwg yn y Geiriadur, naill ai drwy bori yn y cyfrolau print neu yn y Geiriadur Ar Lein - ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html.

Os ydych yn gwybod am enwau diddorol eraill yn ymwneud â'r cartref, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk),

J.E.DAVIES A'I FAB
TREFNWYR ANGLADDAU Edward Davies Dip.F.D
CWMNI TEULUOL PREIFAT SEFYDLWYD DROS 100 MLYNEDD
CERRIG BEDDAU - DELYN MEMORIALS
Ffynnon y Cyff, Licswm, Treffynnon, 01352 741265
90 Stryd Wrecsam, Yr Wyddgrug, 01352 700155
50 Stryd Fawr, Cei Connah, 01244 831774
Stryd Fawr, Bagillt, 01352 732146
1-3, Stryd Helygain, Y Fflint, 01352 733833
163 Ffordd Yr Wyddgrug, Bwcle, 01244 548197
2, Stryd Helygain, Treffynnon, 01352 712203
CEIR PRIODAS - ROLLS A DAIMLER

Plaid Cymru | Party of Wales
Llyr Gruffydd AC

Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
Llyr Gruffydd AC
69A Heol Clwyd
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru
Yn gweithio dros y gogledd
@LlyrGruffydd
www.llyrgruffydd.cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

YN SEFYLL DROS Y GYMUNED A'M FFURFIODD
Hannah Blythyn AC
Aelod Cynulliad dros Delyn

Welsh Labour | Llafur Cymru
Hannah4Delyn @HannahBlythyn hannah.blythyn@assembly.wales
01352 762102 hannahblythyn.wales 38 Stryd yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AE

papurFAMA HYSBYSEBION
Os hoffech hysbysebu eich gwaith neu gwasanaeth eich cwmni ym Mhapur Fama gweler y prisiau isod:

Un rhifyn		Pris am flwyddyn	
⅛ tudalen	£7.50	⅛ tudalen	£50
¼ tudalen	£15	¼ tudalen	£100
½ tudalen	£30	½ tudalen	£200
Tudalen lawn	£50	Tudalen lawn	£350

I drefnu hysbyseb neu i drafod eich anghenion ymhellach cysyllter â Trefor Jones: *jones.llysyfron@outlook.com*

Hysbysebion personol/diolchiadau: cyfraniad o £5 os gwelwch yn dda.

Cofiwch anfon eich newyddion, hanesion, hysbysebion a lluniau at:-
papurfama@hotmail.co.uk

ENWAU A RHIFAU FFÔN GOHEBWYR PAPUR FAMA

LICSWM
Nesta Davies
01352 741597

TREUDDYN
Mary Roberts
01352 770219

NERCWYS
Lis Jones
01352 771542

BWCLE
Rhiannon Jones
01244 545298

CAER
Gwenllian Magee
01244 335946

SYCHDYN
Elen Jones
01352 757112

GWERNYMYNYDD
Catherine Richards
01352 757469
Margaret Jones
01352 732300

PENTRE MOCH
Adrienne Allen
01244 821286

COEDTALON A CHOEDLLAI
Gareth a Carys Hughes
01352 771244

CILCAIN
Keith Redfern Humphreys
01352 742250

MERCHED Y WAWR
Mair Selway
01352 758407

CAPEL BETHESDA
Enid Young
01352 756365

CAPEL PENDRE
Bryn Jones
01352 700440

CAPEL Y WAUN
Eirlys Gruffudd
01352 754458

BOBOL BACH
Nia Ellis
niaangharad@hotmail.com

LLEISIAU LLENYDDOL
Awen Powell
[01352] 752468
powell@makuti.fsnet.co.uk

TANYSGRIFIO MEDI 2018-GORFFENNAF 2019

I dderbyn Papur Fama trwy'r post anfonwch y ffurflen isod i'r POSTMON erbyn Medi 1 af naill gyda siec am £13 yn daladwy i "Papur Fama " neu trefnwch Ddebyd Uniongyrchol o £13 i " Papur Fama", Banc Barclays Yr Wyddgrug, côd cangen 20-25-69, rhif y cyfrif 90720801. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Papur.

FFURFLEN TANYSGRIFIO
Papur Fama Medi 2018-Gorffennaf 2019

Taliad Amgaeaf siec neu rwyf wedi trefnu Debyd uniongyrchol.

Enw .....
Cyfeiriad .....
.....
.....
Côd Post .....
Ffôn .....
Dychwelyd Aled & Helen Jones Ardwyn, 18 Rhodfa'r Mynydd, Yr Wyddgrug CH7 1GQ

Clwb y Bobol Bach

Penblwydd Hapus iawn i bawb sy'n dathlu eu penblwydd yn ystod Mis Mai a Mehefin

MIS MAI

Huw Cavan Davies	11 oed
Anna Fflur Thomas	11 oed
Ava-Gwen Reeves	10 oed
Erin Mai Wynn-Davies	10 oed
Lily Efa Smith	9 oed
Hana Rose Liversage	6 oed

MIS MEHEFIN

Casi Ela Wynn-Townley	9 oed
Awen Hogg	9 oed
Elain Hâf Wynn-Jones	8 oed

Dyma Mr Urdd. Ydych chi'n cofio dawns Mr Urdd? Beth am ei ymarfer adre.

"Mlaen dau tri pedwar, nol dau, tri, pedwar, siswrn, siswrn cic, cic" Rhowch gynnig arni!

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

cylch ti a fi

Cylchoedd Ti a Fi Yr Wyddgrug: yn rhedeg yn ystod tymor ysgol rhwng 9.30 a 11.30: Dydd Llun-Capel Bethesda, Dydd Mercher-Canolfan Gymunedol Park fields, Dydd Gwener-Capel Bethesda

£2 y sesiwn am baned, crefft, snapyn a sesiwn canu.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Gwen ar 07756580831.

CLWB Y BOBOL BACH

Llenwch y ffurflen isod a'i hanfon at y cyfeiriad isod gydag 50c i fod yn aelod o Glwb Bobol Bach.
Enw:
Cyfeiriad

Dyddiad Geni:
e-bost:
Bobol Bach – 44 Ffordd Byrnwr Gwair
Yr Wyddgrug CH7 1FQ

9 772042 575006